



Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa
Yr Athrofa Professional Learning Partnership

Trawsnewid Addysg Gyda'n Gilydd Transforming Teaching Together

Llawlyfr AGA PDPA 2024-5



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

Pwrrpas y ddogfen hon yw darparu trosolwg o'r rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) (TAR a BA) a ddarperir gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) trwy Bartneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa (PDPA). Ceir dolenni i ddeunyddiau ychwanegol sy'n rhoi rhoi mwy o fanylder a chymorth ychwanegol yn y llawlyfr hwn, ac mae'r holl deunyddiau ar gael yn electronig.

Prif gynulleidfa'r llawlyfr hwn yw addysgwyr athrawon ysgol-seiliedig, y cydweithwyr hynny sy'n fentoriaid, uwch fentoriaid ac arweinwyr rhwydwaith, fodd bynnag, fe fydd hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer darpar athrawon, addysgwyr athrawon prifysgol-seiliedig yn ogystal â chydweithwyr yn y sector addysg ehangach a darpar athrawon posibl hefyd.

Ar gyfer mentoriaid, ceir copi digidol o'r llawlyfr hwn ar y SharePoint PDPA yn yr [Llawlyfrau a Chanllawiau](#)

Ceir copi Saesneg yn [Handbooks & Guidance](#)

Ar gyfer darpar athrawon, ceir copïau digidol ar Moodle.

© UWTSO 2024


Cyflwyniad i PDPA	4
Y SharePoint PDPA.....	6
Rhaglenni AGA PDPA	7
Y tîm o amgylch y darpar athro a chefnogi llesiant	9
Calendr Rhaglenni PDPA 2024-5	13
Trosolwg o'r Rhaglen - TAR	14
Trosolwg o'r Rhaglen - BA	17
APLP model of mentoring.....	20
Strategaethau mentora	22
Disgwyliadau mentoriaid yn ystod PAP	30
Gweithio mewn Rhwydwaith	33
Canllawiau Atodol	34
Y Gymraeg.....	36
Bod yn ysgol PDPA	38
Rolau a chyfrifoldebau	41
Cysylltiadau	48
Llyfryddiaeth	50

Lansiwyd Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa (y cyfeirir ati gydol y ddogfen hon fel PDPA) yn 2018 i baratoi'r to nesaf o addysgwyr ar gyfer cwricwlwm newydd yng Nghymru. Mae PDPA yn cyfuno arbenigedd y sector ysgolion a'i holl brofiad ymarferol ar lawr dosbarth ag arbenigedd y sector addysg uwch (AU), o ddeall dylunio a darparu ymchwil gofalus i grefft fedrus addysgu athrawon a darpar athrawon. Cafodd ein rhaglenni eu hadolygu a'u hailachredu gan y CGA er mwyn eu darparu am y tro cyntaf o fis Medi 2024.

Oherwydd ehangder daearyddol elfennau cydrannol PDPA, rydym yn edrych i'r dwyrain a'r gorllewin ac yn adnabod Cymru wledig a threfol. Yn falch o'n treftadaeth a natur unigryw'r genedl a wasanaethwn, mae PDPA yn eithriadol o uchelgeisiol, gan dynnu ar arfer gorau rhyngwladol yn sail i'n gwaith yn y wlad hon ac, i'r gwrthwyneb, mae'n awyddus i rannu ein harbenigedd mewn ystafelloedd dosbarth lleol a byd-eang. Rydym yn gweithio gyda thros cant tri deg o ysgolion ledled Cymru, fel a ddangosir yn y ddelwedd isod:



Mae PDPA yn rhan o gefnogi holl gamau addysg ledled Cymru a thu hwnt, fel a ddangosir yn y model coeden arddulliedig isod. Mae'r llawlyfr hwn yn ffocysu ar raglenni AGA. Cysylltwch â ni i gael rhagor o wybodaeth am gyfleoedd eraill, gan gynnwys dysgu proffesiynol achrededig pwrpasol.



Caiff y bartneriaeth ei llywodraethu a'i rhedeg mewn partneriaeth rhwng y Brifysgol a'n 15 o ysgolion Arweiniol y Rhwydwaith, ac mae pob un o'n hysgolion partner yn gweithio gydag un o'r ysgolion arweinio hyn. Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2024-25, ysgolion Arweiniol ein Rhwydwaith yw:

- ❖ Ysgol yr Esgob Gore (CS, *Uwch*)
- ❖ Ysgol Gynradd Cadle (CS, *Cyn*)
- ❖ Ysgol y Bont-faen (CS, *Cyn/Uwch*)
- ❖ Cymuned Dysgu Ebbw Fawr (CS, *Cyn/Uwch*)
- ❖ Ysgol Gynradd Maes yr Haul (CS, *Cyn*)
- ❖ Ysgol Olchfa (CS, *Uwch*)
- ❖ Ysgol Gynradd Parkland (CS, *Cyn*)
- ❖ Ysgol Gymunedol Doc Penfro (CS, *Cyn*)
- ❖ Ysgol Gynradd Pontarddulais (CS, *Cyn*)
- ❖ Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth (CC/S, *Cyn/Uwch*)
- ❖ Ysgol Gymunedol Sant Thomas)

- ❖ Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf (CS, Cyn/Uwch)
- ❖ Ysgol Bro Preseli (CC, Cyn/Uwch)
- ❖ Ysgol Gynradd Gymraeg Lon (CC, Cyn/Uwch)
- ❖ Ysgol Llanhari (CC, Cyn/Uwch)

CS = Cyfrwng Saesneg; CC = Cyfrwng Cymraeg; CC/S = Rhwydwaith Dwyieithog; Cyn = Rhwydwaith Cynradd; Uwch = Rhwydwaith Uwchradd; Cyn/Uwch = Rhwydwaith Cynradd ac Uwchradd Cymysg)

Yn ei hanfod, mae model PDPA o addysg gychwynnol athrawon (AGA) yn drawsnewidiol. Yn ein barn ni, mae athrawon sy'n drawsnewidiol yn chwilio am gyfleoedd yn weithredol i gael mewnwleidiadau newydd a defnyddio'r rhain i ddylanwadu ar eu harfer eu hunain i gyfoethogi addysg yng Nghymru a thu hwnt.

Ymhlith rhai o nodweddion allweddol ymagwedd y Bartneriaeth at AGA mae:

- Gosodir darpar athrawon mewn rhwydweithiau sy'n cynnwys Ysgol Arweiniol a nifer o Ysgolion Partner;
- Bydd darpar athrawon yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau a phrofiadau sy'n cefnogi meddwl beirniadol a chyd-adyfyrio a nodi'r camau nesaf ar gyfer datblygu, e.e. pontio;
- Caiff Asesiad o Statws Athrawon Cymwysedig (SAC) ei rannu rhwng yr addysgwr athrawon ysgol-seiliedig a'r addysgwr athrawon prifysgol-seiliedig;
- Cefnogir rhwydweithiau gan Diwtor Prifysgol penodol

Gellir dod o hyd i'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r bartneriaeth ar ein gwefan SharePoint.

<https://uowtsd.sharepoint.com/teams/PDPA-APLP/SitePages/Home.aspx>

Mae mynediad at hyn yn cael ei gyrchu gan ddefnyddio cyfrifon Microsoft yn yr ysgol, yn hytrach na chael enw defnyddiwr a chyfrinair ychwanegol. I'r rhan fwyaf o gydweithwyr dyma fydd eu cyfrif Hwb.

Gellir rhoi mynediad i fentoriaid newydd i SharePoint trwy lenwi'r ffurflen hon - [Cais am Fynediad i SharePoint Access Request \(office.com\)](#)

Mae'r llawlyfr hwn yn cynnwys amrywiaeth o ddolenni i ddogfennau sydd ar gael ar SharePoint. Os ydych chi'n ceisio cyrchu dogfen benodol cyn mewngofnodi i SharePoint, efallai y bydd yn eich annog i ofyn am fynediad. O ganlyniad, sicrhewch eich bod wedi mewngofnodi ac yn gallu cyrchu'r dudalen gartref lefel sylfaen yn gyntaf, ac yna dilyn hyperddolen dogfen, bydd yn eich galluogi i weld y ddogfen.

Gellir dod o hyd i ffolderi myfyrwyr ym mhob ffolder Rhwydwaith isod.

[Bishop Gore School](#)

[Bishop of Llandaff CIWHS](#)

[Cadle Primary School](#)

[Cowbridge CS](#)

[Ebbw Fawr CL](#)

[Olchfa School](#)

[Parkland Primary School](#)

[Pembroke Dock CS](#)

[Pontarddulais Primary School](#)

[QEHS](#)

[St Thomas PS](#)

[Ysgol Bro Preseli](#)

[Ysgol GG Lon Las](#)

[Ysgol Llanhari](#)

[Ysgol Maes yr Haul](#)

Mae PDPA yn cynnig BA Addysg Gynradd gyda SAC israddedig tair blynedd a Thystysgrif Addysg i Raddedigion un flwyddyn sydd â llwybrau cynradd ac uwchradd.

Cwricwlwm Craidd

Mae'r ddwy raglen yn rhannu cwricwlwm cyffredin, gyda'r myfyrwyr BA yn cwblhau cwricwlwm sbiral sy'n ailymweld â phum modwl craidd yn fanylach bob blwyddyn. Y modylau hynny yw:

- Arwain y Dysgu: Beth, sut a pham ydw i'n addysgu?
- Y dysgwr: Pwy ydw i'n ei addysgu?
- Dysgwyr, ysgolion a chymunedau: Ble ydw i'n addysgu?
- Ymchwilio i'r dysgu: Beth, sut a pham ydw i'n addysgu?
- Y Gymraeg mewn Arfer Proffesiynol

Yn ogystal, bydd myfyrwyr BA yn cwblhau modwl sy'n ffocysu ar ddatblygiad rhifedd proffesiynol, llythrennedd a gallu digidol yn eu blwyddyn gyntaf. Yn eu hail a'u trydydd blynyddoedd, maent yn dewis un 'modwl dyfnhau arfer' o'r rhestr isod:

BA2

- Anghenion Dysgu Ychwanegol – Arfer Cynhwysol
- Darllen a Llenyddiaeth Plant
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Iechyd a Lles

BA3

- Anghenion Dysgu Ychwanegol – Rôl y CADY
- Mathemateg a Rhifedd
- Celfyddydau Mynegiannol
- Dyniaethau

Hefyd, bydd darpar athrawon o'r ddwy raglen yn cymryd rhan mewn:

- profiad 'cyfnewid cyfnod' dau ddiwrnod;
- lleoliad profiadau dewisol;
- profiad amgen deuddydd.

Ceir rhagor o fanylion am y rhain ar dudalen 34

Arfer Addysgu Proffesiynol

Mae pob rhaglen yn cynnwys 120 diwrnod o leoliad ysgol yn un o'n hysgolion partner. Trefnir y lleoliadau hyn gan Arweinwyr Rhwydwaith, ac nid oes disgwyl i ddarpar athrawon drefnu eu lleoliad eu hunain.

TAR

Bydd darpar athrawon yn cwblhau dau leoliad. Ar gyfer darpar athrawon ar y llwybr cynradd, bydd un yn y cynradd is (derbyn i Fl2) ac un yn y cynradd uwch (Bl3 – Bl6). Gall y lleoliadau hyn fod mewn unrhyw drefn.

BA

Bydd darpar athrawon BA1 yn cwblhau lleoliad yn y cynradd is.

Bydd myfyrwyr darpar athrawon BA2 yn cwblhau lleoliad yn y cynradd uwch (Bl3 – Bl6)

Bydd darpar fyfyrwyr BA3 yn dewis cyfnod ar gyfer eu lleoliad olaf


Ceir dyddiadau lleoliadau'r holl grwpiau blwyddyn yn y calendr -

<https://teamup.com/ksyu78okbjkw1h7vtc>

Rhaid i fyfyrwyr gwblhau 120 diwrnod a dangos eu bod wedi bodloni safon SAC Safonau Proffesiynol Addysgu ac Arweinyddiaeth yng Nghymru. ([safonau-proffesiynol-ar-gyfer-addysgu-ac-arweinyddiaeth-pdf-rhyngweithiol-ar-gyfer-cyfrifiaduron-personol.pdf \(gov.wales\)](#)) Efallai y bydd gofyn i ddarpar athrawon gwblhau diwrnodau ychwanegol tu hwnt i'r blociau o leoliadau a gyhoeddir er mwyn cyflawni hyn.

Pontio

Model PDPA er mwyn dod â theori ac arfer at ei gilydd yw 'Pontio'. Trwy'r dull hwn, bydd darpar athrawon yn symud trwy camau 'cwrdd', 'profi' a 'rhannu', gyda chyfnodau o adfyfrio rhwng pob cam. Gwelir hyn yn y darlun isod:



Mae'r dull Pontio yn amrywio ychydig o un grŵp blwyddyn i'r llall, ond ym mhob achos, mae'n galluogi i ddarpar athrawon weithio gydag addysgwyr athrawon ysgol-seiliedig a phrifysgol-seiliedig i ystyried un elfen benodol o arfer. Weithiau (ond nid pob tro) caiff hyn ei gysylltu i elfen o un o'r modylau a addysgir.

Y tîm o amgylch y darpar athro a chefnogi llesiant

Er ei fod yn broffesiwn boddhaus iawn, rydym yn cydnabod bod addysgu hefyd yn hynod o anodd, a bod addysg gychwynnol athrawon yn gallu bod yn arbennig o anodd. Er mwyn cefnogi ein darpar athrawon, mae PDPA yn gweithredu ‘tîm o amgylch y darpar athro’, sy’n ymgorffori cymorth ar gyfer cynnydd proffesiynol ac academiaidd yn ogystal â llesiant bugeiliol.

Mae gan y tîm hwn rôl hyblyg wrth gefnogi gwahanol setiau o gymwyseddau, e.e. bod yn llwyddiannus yn yr ystafell ddosbarth, coladu tystiolaeth ar gyfer SAC, neu ddatblygu sgiliau ymchwil wrth gynnig cymorth bugeiliol yn ystod adegau mwy heriol.

Mae’r ‘tîm o amgylch y darpar athro’ yn cynnwys:



Er mwyn datblygu hyder a hunandibyniaeth, mae disgwyl i ddarpar athrawon fod yn rhagweithiol wrth ddefnyddio’r tîm o amgylch y darpar athro i ddatrys problemau a chynnal eu llesiant eu hunain. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod astudio i fod yn athro yn heriol a bod angen gwahanol lefelau o gymorth ar unigolion mewn gwahanol agweddau ar y rhaglen. Rydym yn deall nad yw un-maint-yn-ffitio-pawb ac mae ein ‘tîm o amgylch y darpar

athro’ wedi cael ei ddylunio gyda hyn mewn golwg.

Pwy yw pwy?

O ganlyniad i natur gymhleth gweithio mewn partneriaeth, bydd addysgwyr athrawon prifysgol-seiliedig ac ysgol-seiliedig yn gweithio gyda’i gilydd mewn amrywiaeth o rolau i gefnogi darpar athrawon trwy gydol eu rhaglenni. Mae trosolwg o’r rolau a’r cyfrifoldebau wedi’i ddarparu isod, ac mae manylion ychwanegol ar gael ar tudalen 41.

Addysgwyr athrawon mewn ysgol

Arweinydd Rhwydwaith:

Uwch aelod o staff o fewn yr ysgol arweiniol sydd ag amser dynodedig ar gyfer datblygu PDPA. Mae’r Arweinydd Rhwydwaith yn cydlynw gweithgarwch AGA, yn cynnal dulliau cyfathrebu da ac yn bwydo i mewn i brosesau sicrhau ansawdd ar draws y rhwydwaith.

Uwch Fentor:

Uwch aelod o’r staff addysgu sy’n gyfrifol am gydlynw Profiad Addysgu Proffesiynol (PAP) ar gyfer nifer o ddarpar athrawon mewn ysgol bartneriaeth (o fewn rhwydwaith) ac yn cefnogi agweddau penodol ar PAP, e.e. cydarsylwi gwersi, prosesau wrth gefn. Mae’r Uwch Fentor yn gyfrifol am SA y ddarpariaeth yn yr ysgol bartner.

Mentor Dosbarth/Pwnc:

Y pwynt cyswllt cyntaf yn ystod PAP sy’n cefnogi’r darpar athro wrth goladu tystiolaeth ar gyfer SAC a dod yn athro annibynnol.

Mae'r Mentor Dosbarth/Pwnc yn cefnogi datblygiad gwybodaeth pwnc a gwybodaeth bedagogaid y darpar athro.

Mentor y Gymraeg:

Unigolyn enwebedig sy'n gallu cefnogi datblygiad sgiliau yn y Gymraeg o fewn lleoliad yr ysgol, a sicrhau bod darpar athrawon yn gallu cael y profiadau sydd eu hangen i gasglu tystiolaeth ar gyfer Fframwaith y Gymraeg.

Addysgwyr Athrawon Prifysgol-seiliedig:

Arbenigwyr Pwnc / Cyfnod sydd â rôl addysgu ac ymchwil yn y brifysgol gan gynnwys cefnogi arbenigedd pwnc/MDaPh, datblygiad sgiliau ymchwil a chyfrannu at waith cyhoeddedig.

Tiwtor Cyswllt Pontio

Addysgwyr athrawon prifysgol-seiliedig sy'n gysylltiedig â rhwydwaith penodol i gyd-gynllunio a chyd-ddarparu seisynau Pontio yn yr ysgolion Arweiniol ein Rhwydwaith

Tiwtor Proffesiynol

Yn gysylltiedig â rhwydwaith ac yn cefnogi agweddau ar waith rhwydwaith gan gynnwys asesu, lleoliadau a mentora.

Tiwtor Personol

Neilltuir tiwtor personol ar gyfer pob darpar athro a fydd yn darparu cefnogaeth bugeiliol drwy gydol y

rhaglen. Bydd hyn yn cynnwys e-byst wythnosol tra ar leoliad, a chynnal ymweliadau ysgol ac adolygiadau SAC.

Rheolwr Rhaglen

Caiff Rheolwyr Rhaglen drosolwg ar garfan benodol o fyfyrwyr i sicrhau eu llwyddiant academiaidd a phroffesiynol. Maent yn cadw golwg ar bresenoldeb ac yn gweithio gyda cynrychiolwyr cwrs i sicrhau fod y rhaglenni yn cael eu cynnal yn gydlynol. Gallwch ddod o hyd i fanylion cysllwt ar dudalen 41.

Cefnogi llesiant darpar athrawon

Rydym yn annog darpar athrawon i gymryd camau rhagweithiol at gefnogi eu llesiant eu hunain. Nid yn unig mae hyn yn agwedd bwysig ar gwblhau'r rhaglen AGA yn llwyddiannus, ond hefyd ar gynaliadwyedd gyrfa yn yr hir dymor.

I gefnogi hyn, mae tîm y brifysgol yn cefnogi dull '25SS' at gyfathrebu trwy e-byst – gofynnwn am hyd at ddau ddiwrnod gwaith i ymdrin ag e-byst (er ein bod yn ceisio ateb cyn gynted â phosibl), ni anfonir e-byst ar ôl 5pm, ac ni anfonir e-byst ar ddydd Sadwrn na dydd Sul.

Yn ogystal, bydd darpar athrawon yn derbyn ystod o offer a chymorth i reoli eu llesiant eu hunain, gan gynnwys cyngor ar reoli amser a mynediad i ystod o offer a gwasanaethau prifysgol a amlinellir isod. Rydym yn defnyddio cyfatebiaeth y 'bwced straen' i helpu myfyrwyr i feddwl am eu lefelau straen a llesiant eu hunain, a darparu geirfa i'w helpu i'w drafod.

Cewch rhagor o fanylion am y dull hwn yma.

Rydym yn annog darpar fyfyrwyr ar leoliad i barhau gyda'r ymagwedd ragweithiol hon at reoli eu gwytnwch a'u llesiant, ac rydym yn annog mentoriaid i drafod hyn gyda nhw yn rhan o'u cyfarfodydd rheolaidd. Yn ogystal, bydd tiwtoriaid personol yn anfon e-bost cyswllt wythnosol at ddarpar athrawon pan fyddant ar leoliad. Mae hyn yn helpu i ddarparu cymorth parhaus ar draws y rhaglen.

Os oes gennych bryderon am lesiant darpar athro ar leoliad, cymerwch gamau mor fuan â phosibl. Gall problemau o ran llesiant ddod i'r amlwg trwy:

- Hwyliau isel neu dristwch parhaus;
- Colli diddordeb neu chwant bwyd;
- Blinder neu ddiffyg egni;
- Diffyg canolbwyntio;
- Hunan hyder gwael neu sylwadau hunanfychanol;
- Cynnwrf neu arafu symudiadau.

Nid yw hyn yn restr derfynol a dylid gweithredu ar newid mewn ymddygiad sy'n peri pryder.

Os nodir pryderon am lesiant darpar athro, rhaid rhoi gwybod i'r brifysgol ar unwaith:

Ffôn: 0300 131 3030

E-bost: Partnership@uwtsd.ac.uk neu Partneriaeth@pycydds.ac.uk

Nodwch, unwaith y byddwch wedi rhoi gwybod i ni, efallai y byddwn yn gofyn i chi gyfeirio'r darpar athro i dîm Gwasanaethau Myfyrwyr PCYDDS os oes pryderon ynghylch ymddygiad, diogelwch neu sefyllfa gyffredinol myfyriwr, gan ddefnyddio'r ffurflen 'achos pryder'. Caiff hyn ei gyflwyno i'r tîm, Gwasanaethau Myfyrwyr a fydd yn brysennu'n briodol. Lle bynnag y bo'n bosibl, anogir partneriaid i lenwi'r ffurflen hon gyda'r myfyriwr a rhannu eu pryderon gyda nhw cyn gynted â phosibl.

<https://live.uniticms.com/uwtsd/register/?form=form33>

Mae gan ddarpar athrawon fynediad i ystod eang o wasanaethau cymorth ychwanegol trwy dîm Gwasanaethau Myfyrwyr PCYDDS. Mae'r rhain yn cynnwys:



- ❖ Cyflwynir holl fyfyrwyr PCYDS i 'Togetherall', **adnodd cymorth iechyd meddwl ar-lein â mynediad 24/7** a ddefnyddir ar draws y sector addysg uwch (AU). Mae'r gwasanaeth hwn yn sicrhau bod pob myfyriwr yn gallu cael cymorth pan fydd arnynt ei angen ac yn eu grymuso i wella eu llesiant trwy gymryd camau gweithredol i wella iechyd meddwl.

Mae Togetherall yn cynnig:

- Cymorth ar-lein 24/7, sy'n golygu nad oes raid mynd ar y campws i gael cymorth;
- Cyrsiau strwythuredig i'w gwneud eich hun sy'n hyrwyddo iechyd meddwl da
- Cymorth gan gymheiriaid a rhwydweithiau sy'n cael eu monitro gan weithwyr proffesiynol iechyd meddwl.

Sut i gyfeirio myfyrwyr:

- Gall myfyrwyr gofrestru drwy ddefnyddio eu cyfeiriad e-bost PCYDDS;
- Mae angen iddynt ymweld â www.togetherall.com a chofrestru;
- Ar ôl cofrestru gallant greu enw defnyddiwr anhysbys a defnyddio'r adnoddau sydd ar gael

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth ar-lein trwy wefan y sefydliad.



Adnodd gwefan iechyd meddwl a llesiant yw **Myf-Cymru** a ddatblygwyd mewn ymateb i'r diffyg adnoddau drwy gyfrwng y Gymraeg.



Mae gan bob myfyriwr fynediad i 'Sorted: mental health' yn RHAD AC AM DDIM. Gall darpar athrawon lawrlwytho hwn ar eich ffôn a datgloi'r holl gynnwys trwy ddefnyddio ein codau prifysgol penodol.

<https://www.feelinggood.app/onboarding/uwtsd-en/>

Mae myfyrwyr ar y rhaglen TAR un-flwyddyn yn dilyn nail ai'r llwybr cynradd, neu un o'r llwybrau eilradd penodol i bwnc.

Lleolir dau draean o'r cwrs yn yr ysgolion, ar draws dau leoliad dysgu proffesiynol (gweler isod)

Bydd myfyrwyr yn cwblhau pum modiwl academiaidd ar draws y flwyddyn. Rhain yw:

- Arwain y Dysgu (gyda SAC): beth, sut a pham ydw i'n addysgu? (ECAD6051C)
- Y Dysgwr: pwy ydw i'n ei addysgu? (ECAD6050C)
- Cymraeg mewn Ymarfer Proffesiynol (ECAD6052C)
- Dysgwyr, Ysgolion a Chymunedau: ble ydw i'n addysgu? (ECAD7006C)
- Ymchwilio i'r Dysgu: beth, sut a pham ydw i'n addysgu? (ECAD7006C)

Yn y rhaglenni TAR 2024 newydd, gall myfyrwyr hawlio credydau prifysgol am gwblhau lleoliad, ac am gyflwyno eu porffolios Cymraeg.

Pontio

Bydd myfyrwyr yn ymgymryd ag ystod o brofiadau 'Pontio' i gefnogi eu profiadau dysgu proffesiynol.

Caiff pob profiad pontio ei gyd-ddarparu gan addysgwyr athrawon prifysgol ac ysgol-seiliedig yn yr ysgolion Arweiniol ein Rhwydwaith. Bydd manylion o ffocws pob profiad pontio, a'r Gwaith sydd angen ei ymgymryd gan y darpar athrawon ynystod y cyfnod 'prawf' yn cael ei rannu gyda chydweithwyr yn y cylchlythyr PDPA.

Profiad Addysgu Proffesiynol (PAP)

Mae'r Profiad Addysgu Proffesiynol yn rhoi cyfle i ddarpar athrawon gymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau ar waith. O ganlyniad, mae'r elfen hon o'r rhaglen yn hanfodol wrth ddatblygu athrawon proffesiynol, adfyfyriol ac effeithiol. Ceir dyddiadau'r PAP ar gyfer darpar athrawon TAR isod:

TAR - PAP 1a

02/10/24 - 4/10/24

14/10/24 - 10/12/24

TAR - PAP 1b

06/01/25 - 24/01/25

TAR - PAP 2


13/2/25-17/02/25

Dull graddedig o addysgu

Mae gan ddarpar athrawon amserlen ddysgu amser llawn. Mae'r cydbwysedd rhwng addysgu a gweithgareddau eraill yn newid dros y flwyddyn – 'dull graddedig'. Mae dechrau'r cwrs yn cynnwys cyfuniad o addysgu fel tîm, cyflwyno rhan o wers / addysgu grŵp. Yn ogystal â hyn dylent ymgymryd ag arsylwi â ffocws a chael amser i gynllunio gwersi, yn cynnwys cyd-gynllunio â chydweithwyr mwy profiadol.

Ar ddechrau eu PAP cyntaf, dylid treulio tua 30% o'u hamserlen yn 'addysgu', gan godi i 75% erbyn diwedd y PAP olaf.

Dangosir hyn yn y ddelwedd isod:



Mae'r dull graddedig yn cynnig amgylchedd dysgu lle mae arsylwi, hyfforddi, cyd-addysgu ac adfyfrio gydag eraill yn rhan annatod o'r rhaglenni. Mae'r dull graddedig at addysgu'n cynnwys dau llyn:

- I. Cyfres wedi'i gynllunio o weithgareddau ar gyfer amser pan nad ydynt yn addysgu;
- II. Profiad wedi'i gynllunio o hyfforddiant a chyd-addysgu, a thrwyddo bodd athrawon profiadol yn modelu a sgaffaldio taith y darpar athro o ddechreuwr i annibyniaeth.

Dylid rhoi cyfrifoldebau **dosbarth cyfan**, cyffredinol i ddarpar athrawon o gychwyn cyntaf y PAP e.e. cymryd cyfrifoldeb am reoli arferion dosbarth cyfan – croesawu a rhyddhau disgyblion o'r dosbarth, trefnu a chlirio adnoddau, a chymryd y gofrestr. Dylai darpar athrawon gael profiad o rôl estynedig yr athro lle bynnag y bo modd, e.e. dyletswydd iard, mynychu gwasanaeth, cefnogi ymweliadau neu glybiau ar ôl ysgol.

Mae'n hanfodol bod Mentoriaid Dosbarth/Pwnc yn mynd ati'n weithredol i annog darpar athrawon i

feithrin arloesedd wrth weithredu o fewn y ffiniau a osodir gan gynlluniau adrannol a chwricwlwm. Nid yn unig mae hyn yn meithrin twf mewn dulliau addysgu dyfeisgar ond hefyd yn grymuso darpar athrawon gyda'r sgiliau angenrheidiol i gynnal addysgu hunanddibynnol a gwreiddiol.

Ceir gwybodaeth ychwanegol sy'n perthyn i PAP mewn llyfrynau canllaw PAP, yma:

[PDPA-APLP - Llawlyfrau a Chanllawiau - All Documents \(sharepoint.com\)](#)

Seminarau Datblygu Proffesiynol

Yn ystod y PAP, mae disgwyl i Uwch Fentoriaid ddarparu cyfres o seminarau datblygu proffesiynol ar gyfer darpar athrawon yn eu hysgolion. Caiff y pynciau a gwmpesir yn y seminarau hyn eu dewis ar ddisgresiwn yr Uwch Fentor/iaid, a gellir eu seilio ar anghenion sy'n dod i'r amlwg gan y darpar athro. Isod, rydym wedi cynnwys detholiad o bynciau a gwmpaswyd yn y gorffennol:

- ❖ Defnydd effeithol o TGCh yn yr ystafell ddosbarth
- ❖ Datblygu'r Gymraeg
- ❖ Rheoli'r amgylchedd dysgu
- ❖ Cynllunio
- ❖ Marcio
- ❖ Ysgrifennu 'proffiliau un tudalen' gyda ALNCO
- ❖ Paratoi Nosweithiau Rhieni

Lleoliadau

Mae trefnu lleoliadau yn weithgaredd sy'n ffocysu ar y rhwydwaith. Mae hyn yn sicrhau bod yna fwy o ystyriaeth i'r math o brofiad a gaiff bob darpar athro, yn ogystal â gwell cyfle i weithio mewn partneriaeth yn effeithiol. Er mwyn sicrhau bod gweithgarwch lleoliadau'n ystyried yr holl ystyriaethau, cedwir at y broses a ganlyn:

Darpar athrawon

Gofynnir i bob darpar athro lenwi ffurflen i ddarparu eu manylion personol ac unrhyw amgylchiadau penodol mae angen eu hystyried o fewn y broses leoli.

Erbyn mis Gorffennaf bob blwyddyn, bydd pob myfyriwr BA2, BA3 a phob myfyriwr a gadarnhawyd a fydd yn dechrau BA1 a TAR wedi gorfod llenwi'r ffurflen. Bydd gofyn i unrhyw fyfyrwr BA1 neu TAR sydd wedi derbyn cynnig amodol lenwi'r ffurflen cyn gynted ag y bydd modd ar ôl cadarnhau eu lle ar y cwrs.

Rhagwelir y bydd hyd at 30 o ddarpar athrawon yn cael eu lleoli ym mhob rhwydwaith yn amodol ar recriwtio a'r wybodaeth a ddarperir ar y ffurflenni lleoliadau. Mae'n bwysig nodi, wrth ddyrannu niferoedd i rwydweithiau, bod y cyfrifiad a ganlyn yn cael ei ddefnyddio:

1 darpar athro = lleoliad 24 wythnos

1 darpar fyfyrwr BA dros 3 blynedd = 1
darpar athro TAR

Arweinydd Rhwydwaith ac Ysgolion Partneriaeth

Yn ystod tymor yr haf, mae Arweinwyr Rhwydwaith yn gofyn am gynigion ar gyfer lleoliadau gan ysgolion partner wedi'u seilio ar yr egwyddorion bod darpar athrawon yn cael eu lleoli mewn parau neu grwpiau i sicrhau cyfleoedd ar gyfer cymorth ac adfyfrio cymheiriaid. Unwaith y bydd lleoliadau wedi'u dyrannu ar draws y rhwydwaith, gofynnir i'r ysgolion partner gadarnhau lleoliadau'n electronig ar Sharepoint.

Mae myfyrwyr ar y rhaglen tair blynedd BA Addysg Cynradd gyda SAC yn dilyn cwricwlwm spiral, sydd yn caniatáu iddynt ailymweld â rhai o'r prif syniadau addysgu mewn ystod o gyd-destunau.

Yn y flwyddyn gyntaf (BA1), bydd darpar athrawon yn canolbwyntio ar Dysgu Sylfaen yn y meithrin i fl 2 yn eu modiwlau a'u lleoliad.

Yn yr ail flwyddyn (BA2), bydd darpar athrawon yn canolbwyntio ar y cynradd uwch, o flwyddyn 3 i 6, yn y brifysgol ac ar leoliad.

Yn y drydedd flwyddyn (BA3), bydd darpar athrawon yn dewis cyfnod ar gyfer eu lleoliad.

Mae'r cwricwlwm spiral BA yn cynnwys y modiwlau canlynol ym mhob grŵp blwyddyn:

- Arwain y Dysgu (gyda SAC): beth, sut a pham ydw i'n addysgu?
- Y Dysgwr: pwy ydw i'n ei addysgu?
- Cymraeg mewn Ymarfer Proffesiynol
- Dysgwyr, Ysgolion a Chymunedau: ble ydw i'n addysgu?
- Ymchwilio i'r Dysgu: beth, sut a pham ydw i'n addysgu?

Yn ogystal, bydd myfyrwyr yn BA1 yn cwblhau modiwl 20 credyd sydd yn canolbwyntio ar gynllunio ar gyfer y fframweithiau sgiliau trawsgwricwlaidd.

Bydd myfyrwyr BA2 a BA3 yn dewis un modiwl 'Dyfnhau Arfer' o'r rhestr ganlynol:

BA2

- Anghenion Dysgu Ychwanegol – Arfer Cynhwysol
- Darllen a Llenyddiaeth Plant
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Iechyd a Lles

BA3

- Anghenion Dysgu Ychwanegol – Rôl y CADY
- Mathemateg a Rhifedd
- Celfyddydau Mynegiannol
- Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau

Profiad Addysgu Proffesiynol (PAP)

Mae'r Profiad Addysgu Proffesiynol yn rhoi cyfle i ddarpar athrawon gymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau ar waith. O ganlyniad, mae'r elfen hon o'r rhaglen yn hanfodol wrth ddatblygu athrawon proffesiynol, adfyfyriol ac effeithiol. Ceir dyddiadau'r PAP ar gyfer darpar athrawon BA isod:

BA1 - PAP1

Diwrnodau cyfoethogi

13/01/25

24/01/25 + 27/01/25

07/02/25 + 10/02/25

05/03/25 + 06/03/25

BA1 – PAP1:

17/03/25 - 16/05/25

BA2 - PAP 2a – PAP2

11/11/25 - 06/12/25

Diwrnodau cadw mewn cysylltiad

27/01/25+28/01/25

BA2 - PAP2b – PAP2

03/02/25 - 21/02/25

BA3 – PAP3


06/01/25 - 07/03/25

Dull graddedig o addysgu

Mae gan ddarpar athrawon amserlen ddysgu amser llawn. Mae'r cydbwysedd rhwng addysgu a gweithgareddau eraill yn newid dros y flwyddyn – 'dull graddedig'. Mae dechrau'r cwrs yn cynnwys cyfuniad o addysgu fel tîm, cyflwyno rhan o wers a rhan o wers / addysgu grŵp. Yn ogystal â hyn dylent ymgymryd ag arsylwi â ffocws a chael amser i gynllunio gwersi, yn cynnwys cyd-gynllunio â chydweithwyr mwy profiadol.

Ar ddechrau eu PAP cyntaf, dylid treulio tua 30% o'u hamserlen yn addysgu, gan godi i 75% erbyn diwedd y PAP olaf.

Dangosir hyn yn y ddelwedd isod:



Mae'r dull graddedig yn cynnig amgylchedd dysgu lle mae arsylwi, hyfforddi, cyd-addysgu ac adfyfrio gydag eraill yn ran annatod o'r rhaglenni. Mae'r dull graddedig o addysgu yn cynnwys dau linyn:

- I. Cyfres wedi'i gynllunio o weithgareddau ar gyfer amser pan nad ydynt yn addysgu;

- II. Profiad wedi'i gynllunio o hyfforddiant a chyd-addysgu, a thrwyddo bodd athrawon profiadol yn modelu a sgaffaldio taith y darpar athro o ddechreuwr i annibyniaeth.

Dylid rhoi cyfrifoldebau **dosbarth cyfan**, cyffredinol i ddarpar athrawon o gychwyn cyntaf y PAP e.e. cymryd cyfrifoldeb am reoli arferion dosbarth cyfan – croesawu a rhyddhau disgyblion o'r dosbarth, trefnu a chlirio adnoddau, a chymryd y gofrestr. Dylai darpar athrawon gael profiad o rôl ehangach yr athro lle bo'n bosibl, e.e., y gofrestr. Dylai darpar athrawon gael profiad o rôl estynedig yr athro lle bynnag y bo modd, e.e. dyletswydd iard, mynychu gwasanaeth, cefnogi ymweliadau neu glybiau ar ôl ysgol.

Mae'n hanfodol bod Mentoriaid Dosbarth/Pwnc yn mynd ati'n weithredol i annog darpar athrawon i feithrin arloesedd wrth weithredu o fewn y ffiniau a osodir gan gynlluniau adrannol a chwricwlwm. Nid yn unig mae hyn yn meithrin twf mewn dulliau addysgu dyfeisgar ond hefyd yn grymuso darpar athrawon gyda'r sgiliau angenrheidiol i gynnal addysgu hunanddibynnol a gwreiddiol.

Ceir gwybodaeth ychwanegol sy'n perthyn i PAP mewn llyfrynau canllaw PAP, yma:

[PDPA-APLP - Llawlyfrau a Chanllawiau - All Documents \(sharepoint.com\)](#)

Seminarau Datblygu Proffesiynol

Yn ystod y PAP, mae disgwyl i Uwch Fentoriaid ddarparu cyfres o seminarau datblygu proffesiynol ar gyfer darpar athrawon yn eu hysgolion. Caiff y pynciau a gwmpesir yn y seminarau hyn eu dewis ar ddisgresiwn yr Uwch Fentor/iaid, a gellir eu seilio ar anghenion sy'n dod i'r amlwg gan y darpar athro.

Isod, rydym wedi cynnwys detholiad o bynciau a gwmpaswyd yn y gorffennol:

- ❖ Diogelu
- ❖ Gwrth-hiliaeth
- ❖ Defnydd effeithiol o TGCh yn yr ystafell ddosbarth
- ❖ Datblygu'r Gymraeg (gyda mentor y Gymraeg)
- ❖ Rheoli'r amgylchedd dysgu
- ❖ Cynllunio effeithiol
- ❖ Marcio, adborth ac asesu
- ❖ Ysgrifennu 'proffiliau un tudalen' gyda'r ALNCO
- ❖ Paratoi nosweithiau rhieni

Lleoliadau

Mae trefnu lleoliadau yn weithgaredd sy'n ffocysu ar y rhwydwaith. Mae hyn yn sicrhau bod yna fwy o ystyriaeth i'r math o brofiad a gaiff bob darpar athro, yn ogystal â gwell cyfle i weithio mewn partneriaeth yn effeithiol. Er mwyn sicrhau bod gweithgarwch lleoliadau'n ystyried yr holl ystyriaethau, cedwir at y broses a ganlyn:

Darpar athrawon

Gofynnir i bob darpar athro lenwi ffurflen i ddarparu eu manylion personol ac unrhyw amgylchiadau penodol mae angen eu hystyried o fewn y broses leoli.

Erbyn mis Gorffennaf bob blwyddyn, bydd pob myfyriwr BA2, BA3 a phob myfyriwr a gadarnhawyd a fydd yn dechrau BA1 a TAR wedi gorfod llenwi'r ffurflen. Bydd gofyn i unrhyw fyfyrwr BA1 neu TAR sydd wedi derbyn cynnig

amodol lenwi'r ffurflen cyn gynted ag y bydd modd ar ôl cadarnhau eu lle ar y cwrs.

Rhagwelir y bydd hyd at 30 o ddarpar athrawon yn cael eu lleoli ym mhob rhwydwaith yn amodol ar recriwtio a'r wybodaeth a ddarperir ar y ffurflenni lleoliadau. Mae'n bwysig nodi, wrth ddyrannu niferoedd i rwydweithiau, bod y cyfrifiad a ganlyn yn cael ei ddefnyddio:

1 darpar athro = lleoliad 24 wythnos

1 darpar fyfyrwr BA dros 3 blynedd = 1 darpar athro TAR

Arweinydd Rhwydwaith ac Ysgolion Partneriaeth

Yn ystod tymor yr haf, mae Arweinwyr Rhwydwaith yn gofyn am gynigion ar gyfer lleoliadau gan ysgolion partner wedi'u seilio ar yr egwyddorion bod darpar athrawon yn cael eu lleoli mewn parau neu grwpiau i sicrhau cyfleoedd ar gyfer cymorth ac adfyfrio cymheiriaid. Unwaith y bydd lleoliadau wedi'u dyrannu ar draws y rhwydwaith, gofynnir i'r ysgolion partner gadarnhau lleoliadau'n electronig ar Sharepoint.

Model Mentora PDPA

Fel partneriaeth, rydym yn deall bod mentora o ansawdd uchel yn hanfodol i ddatblygu darpar athrawon yn athrawon proffesiynol. Felly mae Mentora yn ganolog i'r berthynas rhwng y darpar athro a'r atro profiadol ac yn elfen allweddol o ymagwedd PDPA at addysg atrawon.

Mae Rhaglen Datblygu Mentoriaid PDPA yn rhoi pwyslais ar sicrhau bod mentoriaid yn deall sut mae darpar athrawon yn dysgu i addysgu ac yn gallu addasu'r math o fentora i gefnogi gwahanol gyfnodau o ddilyniant yn effeithiol.

Drwy ddefnyddio adborth gan ddarpar athrawon, creodd addysgwyr athrawon ysgol-seiliedig a phrifysgol-seiliedig y graffig a ganlyn sy'n amlygu'r rhinweddau mae mentoriaid PDPA yn meddu arnynt.

Mae copi o'r poster hwn ar gael yma:

[PDPA-APLP - Llawlyfrau a Chanllawiau - All Documents \(sharepoint.com\)](#)


Y Rhaglen Datblygu Mentoriaid (RhDM)

Mae disgwyl i bob mentor yn PDPA gwblhau Gradd 1 y RhDM, gyda Graddau 2 a 3 yn gyfleoedd dysgu proffesiynol dewisol. Ceir gwybodaeth bellach am y RhDM isod:

Gradd 1: Mae'r hyfforddiant hwn yn rhoi i fentoriaid y sgiliau angenrheidiol i gefnogi darpar athrawon yn effeithiol yn ystod eu PAP. Mae'r strategaethau a'r adnoddau a ddarperir ar y lefel hon wedi'u teilwra i ystyried sut mae darpar athrawon yn dysgu i addysgu, y ffordd orau i gefnogi adfyfrio darpar athrawon ar ddysgu dysgwyr ac i fynd i'r afael â chamdybiaethau posibl sydd ganddynt. Darperir yr hyfforddiant yn bersonol yn gynnar yn y flwyddyn academaidd i Uwch Fentoriaid sydd wedyn yn trosglwyddo'r dysgu yn eu cyd-destunau hwythau. Cynigir hyfforddiant ychwanegol bob hanner tymor gan PCYDDS i gefnogi mentoriaid wrth ymgorffori'r hyfforddiant yn eu harfer.

Mae 'Canllaw Bychan', a welir isod, yn amlygu strategaethau mentora effeithiol o Radd 1 ac fe'u crewyd i gefnogi mentoriaid mewn ysgolion. Maent ar gael yma:

[PDPA-APLP - Llawlyfrau a Chanllawiau - All Documents \(sharepoint.com\)](#)





dealltwriaeth o fentora yn y gwaith. Yn ogystal, mae'n galluogi myfyrwyr MA i gynllunio a darparu rhaglen hyfforddi neu fentora yn y gweithle, a'i gwerthuso'n feirniadol, er mwyn gwella perfformiad unigol yn y gweithle. Anogir partneriaid yn PDPA i gofrestru ar y rhaglen hon ac i ledaenu eu dysgu ar draws eu rhwydweithiau. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y RhDM Gradd 3, cysylltwch â Laurence.thomas@uwtsd.ac.uk


Sicrhau a Gwella Ansawdd

Mae'r PDPA wedi datblygu rhaglen Sicrhau Ansawdd (SA) a Gwella Ansawdd (GA) gadarn sy'n cefnogi mentoriaid ac yn sicrhau bod safonau ansawdd yn cael eu bodloni yn ystod PAP. Canlyniadau bwriedig y prosesau hyn yw:

- ❖ safonau mentora uchel ar draws y bartneriaeth;
- ❖ darpar athrawon â lefelau uchel o lesiant;
- ❖ nodi'r angen i ymyrryd yn gynnar fel y bo'n briodol, gan sicrhau bod darpar athrawon yn gwneud cynnydd effeithiol.

Mae'r prosesau Sicrhau ansawdd a Gwella Ansawdd ar gyfer PAP yn y graffig isod:

PROSESAU MENTORA SICRHAU ANSAWDD (SA) A GWELLA ANSAWDD (GA) PDPA



Ceir gwybodaeth ychwanegol yn gysylltiedig â'r prosesau hyn, yma: [PDPA-APLP - Llawlyfrau a Chanllawiau - All Documents \(sharepoint.com\)](#)

Gradd 2: Mae'r lefel dewisol hwn o hyfforddiant ar gael i bob Mentor Dosbarth / Pwnc ac Uwch Fentor, yn ogystal ag Arweinwyr Rhwydwaith ac Addysgwyr Athrawon Prifysgol-seiliedig. Mae Gradd 2 y RhDM yn defnyddio'r model 'Cwrdd, Profi, Rhannu' i gyflwyno addysgwyr athrawon i

strategaethau mentora cyn eu 'profi' yn eu lleoliadau perthnasol. Bydd cyfleoedd i ddsbarthu a rhannu arfer effeithiol trwy ddigwyddiadau PDPA (er enghraifft, Anelu at Ragoriaeth a Diwrnodau Partneriaeth).

Gradd 3: Mae'r lefel hon yn cynnig cyfle newydd i ddarparu MA mewn Hyfforddi a Mentora ar gyfer mentoriaid, yn rhan o Academi Cymru ar gyfer Arfer Proffesiynol ac Ymchwil Cymhwysol (WAPPAR).¹ Mae'r MA yn datblygu gallu mentoriaid i ddadansoddi'n feirniadol wahanol fodelau/damcaniaethau hyfforddi a mentora, a'u

¹ Academi Cymru ar gyfer Arfer Proffesiynol Ac Ymchwil Cymhwysol (ACAPYC) | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (uwtsd.ac.uk)

Dull PDPA o fentora

Er bod llu o strategaethau mentora a hyfforddi ar gael i addysgwyr athrawon, mae PDPA yn annog y defnydd o'r strategaethau a ganlyn i gefnogi dysgu darpar athrawon:

- ❖ Darganfod rhagdybiaethau darpar athrawon am addysgu a dysgu;
- ❖ Cefnogi adfyfrio darpar athrawon trwy fabwysiadu 'rôl y trafodwr';
- ❖ Gwneud arferion digrybwyll athrawon profiadol, yn eglur;
- ❖ Gosod targedau pwrpasol ac effeithiol

Amlinellir manylion ychwanegol a strategaethau ategol ar gyfer pob un o'r cysyniadau hyn isod:

Dod i adnabod eich darpar athro

Mae Burn, Hagger a Mutton (2015) yn dadlau bod darganfod rhagdybiaethau darpar athrawon am addysg, yn rhan bwysig o'u haddysg wrth ddod yn athro. Fel y cyfryw, anogir mentoriaid dosbarth a phwnc i dreulio amser yn dod i adnabod cefndiroedd a phrofiadau darpar athrawon hyd yma. Mae angen i hyn fynd tu hwnt i sgysiau cyffredinol ac i ffocysu ar ffynonellau sy'n ysbrydoli'r darpar athro. Dywed Burn, Hagger a Mutton (2015 t.49):

“Taking time early on to ask about those previous experiences and sources of inspiration will give you important insights into some of the views that your trainee holds about teaching and learning, and into the contexts in which they were developed. Understanding those roots will help you both to appreciate the emotional attachment that your trainee might have to those ideas and enable you to support them in evaluating their relevance and meaning in their current context.”

O ganlyniad, rydym yn awgrymu defnyddio rhai o'r promptiau cwestiwn isod i ddatblygu'r ddealltwriaeth hon a rhoi pwynt cyfeirio hanfodol y gellir ei ddefnyddio mewn adborth trwy gydol y berthynas mentor/mentai. Mae'n werthchweil gwneud hyn wrth feithrin perthynas gydag unrhyw ddarpar athro, beth bynnag fo amser y flwyddyn.

- ❖ Pwy â'ch ysbrydolodd chi i ddod yn athro? Pam oedd hyn?
- ❖ Sut brofiad a gawsoch chi yn yr ysgol?
- ❖ Pa wersi a wnaethoch chi eu mwynhau / wnaethoch chi ddim eu mwynhau yn yr ysgol? Pam ydych chi'n meddwl bod hynny wedi bod yn wir?
- ❖ Ydych chi wedi arsylwi unrhyw wersi a oedd yn teimlo'n arbennig o effeithiol? Pam ydych chi'n meddwl bod hynny wedi bod yn wir?
- ❖ Yn eich barn chi, sut ydych chi'n meddwl eich bod yn dysgu orau?
- ❖ Beth sy'n eich cymell i fod eisiau dysgu?
- ❖ Pa fathau o berthnasau oedd gennych chi gyda'ch athrawon? Pa effaith a gafodd hyn ar lesiant a dysgu?
- ❖ Sut ydych chi'n meddwl y bydd eich profiadau o addysgu yn effeithio arnoch chi, fel addysgwr?

Byddai'n werthchweil rhannu eich profiadau a'ch meddyliau chi eich hun wrth ymateb i'r cwestiynau. Byddai hyn yn rhoi mewnwelediad i'r darpar athro i rai o'r rhesymau sy'n tanategu a gyrru rhai o'ch gweithredoedd yn yr ystafell ddosbarth.

Rôl y trafodwr

Rôl y trafodwr yw cefnogi darpar athrawon i ymgymryd â 'safbwynt ymholi' a 'bod yn sgeptigol' drwy ddefnyddio cwestiynu pedagogaidd agored. Yma rydym yn golygu gallu gofyn cwestiynau da am eich dysgu ac addysgu eich hun. Yn aml mae hyn yn cynnwys bod yn sgeptigol drwy beidio â derbyn pethau fel maent yn ymddangos, ond archwilio 'pam a sut' o ran yr addysgu.

Mae hyn yn hyrwyddo ymreolaeth a pherchnogaeth myfyrwyr, yn cyfoethogi eu gallu i gyfleu dewisiadau pedagogaidd a rhesymu, ac i annog rhoi ystyriaeth i'r holl ddysgwyr dan eu gofal. Mae hyn yn debyg i'r hyn a nododd Furlong a Maynard (1999 t.180) yn elfennau hanfodol o ddysgu yn yr ysgol. Gellir nodweddu hyn fel a ganlyn:

Sut y gellir cefnogi myfyrwyr mewn ffyrdd a fydd yn eu hannog i ddatblygu dealltwriaeth dyfnach a mwy cymhleth o'r tybiaethau maent yn eu gwneud yn y wybodaeth broffesiynol ymarferol honno

Mae'n bwysig nodi nad rôl y trafodwr yw 'dweud' neu 'uno'r dotiau' ar gyfer darpar athrawon ac mae hyn yn demtasiwn mae angen ei wrthsefyll, er gwaethaf pa mor anodd neu lletchwith yw'r sgwrs. Yn aml, mae cofio'r hyn *nad* yw'r rôl, yn strategaeth effeithiol ar gyfer adnabod beth yw'r rôl. Yn yr achos hwn, gall cofio'r pwyntiau a ganlyn fod yn ddefnyddiol:

Rôl y trafodwr...

- ❖ **NID** rôl y trafodwr yw darparu ateb
- ❖ **NID** rôl y trafodwr yw darparu esboniad
- ❖ **NID** rôl y trafodwr yw llenwi'r distawrwydd

Wrth ymgymryd â rôl y trafodwr, mae'n bwysig cydnabod ac ystyried y canlynol:

- ❖ Gall deimlo'n anghyfforddus (gydag oedolion sy'n dysgu)
- ❖ Mae'n gofyn i'r trafodwr 'ganiatáu lle' i feddwl
- ❖ Mae'n haws pan fydd eich dysgwyr yn gwybod beth i'w ddisgwyl (ac yn cael eu cefnogi i deimlo'n fedrus a gwydn)

Mae gofyn cwestiynau pedagogaidd agored fel 'pam?', 'sut ydych chi'n gwybod?' ac 'a oedd hyn yn wir ar gyfer eich HOLL blant?' yn annog y meddwl a gwerthuso dyfnach hwn. Bydd athrawon yn gyfarwydd â'r math yma o gwestiynu trwy eu harfer ystafell ddosbarth eu hunain a byddant yn ymwybodol o'i rym wrth gyfoethogi trafod pwrpasol a meddwl yn ddyfnach. Creodd Sherrington (2019, tt30-31) nifer o gwestiynau sydd wedi'u seilio ar Egwyddorion Cyfarwyddyd Rosenshine (Rosenhine, 2012) ar gyfer athrawon. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, maent wedi cael eu dewis, i gefnogi mentoriaid wrth ofyn cwestiynau am eu darpar athrawon:

- ❖ Mae hynny'n ddiddorol, beth sy'n gwneud i chi ddweud hynny?
- ❖ Mae hynny'n wir, ond pam, ydych chi'n meddwl?
- ❖ Allwch chi roi enghraifft o ble mae hynny'n digwydd?
- ❖ Pam? Ydych chi'n siŵr? Oes yna esboniad arall?
- ❖ Pa dystiolaeth sy'n cefnogi'r awgrym yna?
- ❖ Ond beth yw'r rheswm dros hynny? A sut mae hynny'n cysylltu i'r rhan gyntaf?
- ❖ Ydy hynny'n wir bob tro neu yn yr enghraifft hon yn unig?
- ❖ Ydy hynny o ganlyniad uniongyrchol i'r effaith neu'n gyd-ddigwyddiad, yn gydberthyniad?

Mae'n bwysig nodi bod y ffordd hon o ofyn cwestiynau yn fanteisiol i ddarpar athrawon a mentoriaid Tra bo darpar athrawon yn cael eu promptio i adfyfrio'n fwy effeithiol ar eu harfer, fe fydd hefyd yn cynnig cyfle i'r mentor weld y broses o feddwl tu ôl i roi o'r penderfyniadau a wnaed ac i bennu lefel y dealltwriaeth.

Lefelau o wrando a gwrando gweithredol

Mae lefel ac ansawdd gwrando mewn sgysiau rhwng mentoriaid a darpar athrawon yn gallu cael effaith arwyddocaol ar yr hyn a ddysgir felly, yr hyn a weithredir arno yn y dyfodol. Er enghraifft, gan weithio o waelod y tabl, lle mae gwrando'n gosmetig, ystyriwch effaith y math yma o wrando ar ddarpar athro yn ystod adborth. O ganlyniad, mae'n bwysig bod darpar athrawon yn ymwybodol o'u lefelau gwrando nhw yn ystod sesiynau adborth a bod adnoddau priodol yn cael eu hamlygu os oes pryderon ynghylch eu gallu i fewnoli gwybodaeth a rennir.

Yn ogystal, fel mentor, mae'n bwysig eich bod yn anelu am lefelau 'dwfn' o wrando i ymgysylltu'n llawn gyda'r hyn mae darpar athrawon yn ei ddweud wrthyich. Yn wir, ar y lefel hon o wrando mae'n bwysig hefyd eich bod o leiaf yn ymgysylltu gyda'r hyn nad yw darpar fyfyrwyr yn ei ddweud wrthyich, trwy ddarllen arwyddion eraill fel iaith y corff:

Lefel o wrando	Nodweddion
Dwfn	Gwrnado'n ofalus, darllen ac ymateb i iaith y corff
Effeithiol	Gwrando gofalus a phwrpasol
Wrth sgwsio	Gwrando 'bob dydd' a wnawn gyda ffrindiau a theulu
Cosmetig	Hanner gwrando wrth wneud rhywbeth arall

Wrth drafod lefelau gwrando, dywed 'Mindtools' bod safonau'n gyffredinol isel a bod lefel ryfeddol o wybodaeth yn cael ei cholli yn ystod sgysiau:

"...research suggests that we only remember between 25 percent and 50 percent of what we hear, as described by Edgar Dale's Cone of Experience. That means that when you talk to your boss, colleagues, customers, or spouse for 10 minutes, they pay attention to less than half of the conversation."

(Active Listening, n.d)

I sicrhau bod mentoriaid a darpar athrawon yn casglu cymaint o wybodaeth â phosibl gan sesiynau adborth, awgrymir bod yr adnoddau isod yn cael eu defnyddio gan y ddau barti fel bod disgwyliadau'n cael eu deall yn glir:



Gallwch hefyd gael mynediad i'r fideo hwn drwy ddefnyddio'r ddolen a'r cod QR isod:

https://www.youtube.com/watch?embeds_referrin_g_euri=https%3A%2F%2Fhubblecontent.osi.office.net%2F&source_ve_path=Mjg2NjQsMTY0NTAz&v=t2z9mdX1j4A&feature=youtu.be



Modelu'r paradocs dysgwr/athro

Mae Elaine Sharpling, Cyfarwyddwr Ymchwil yn Yr Athrofa, yn trafod safle unigryw darpar fyfyrwyr fel dysgwyr ac athrawon yn ei blog, *Red stripes' – how do we support student-teachers through a journey of reform?* (Sharpling, 2020) Mae'r blog hwn yn ymdrin â'r heriau mae darpar athrawon yn eu wynebu wrth ddysgu'n gyhoeddus ac yn annog mentoriaid a menteion ill dau i i gynnal sgysiau gonest ac agored ynghylch arferion ystafell ddosbarth. Yn hyn o beth, awgryma Burn, Haggard a Mutton (2015, t.58) bod

modelu'r ymddygiad a ddisgwylir gan ddarpar athrawon yn strategaeth pwrpaso:

“Taking time early on to ask about those previous experiences and sources of inspiration will give you important insights into some of the views that your trainee holds about teaching and learning, and into the contexts in which they were developed. Understanding those roots will help you both to appreciate the emotional attachment that your trainee might have to those ideas and enable you to support them in evaluating their relevance and meaning in their current context.”

Felly, mae manteisio ar gyfleoedd i ddangos eich ymrwymiad i ddysgu proffesiynol ac adfyfyriol parhaus yn gallu bod yn bwerus wrth ddileu'r berthynas 'meistr a phrentis' canfyddedig rhyngoch chi a'r darpar athro. Hefyd, mae'n caniatáu i'r darpar athro weld bod rôl athro'n un o ddatblygu parhaus, gan osod y teimlad o fod yn agored i niwed mae llawer yn ei deimlo o'r neilltu.

Defnyddio safbwyntiau dysgwyr

Os yw eich darpar athro'n ei chael yn anodd gwahaniaethu rhwng adborth personol a phroffesiynol, gall y mentor fabwysiadu rôl y trafodwr i ddatblygu dealltwriaeth ac adfyfyrio beirniadol ar ddysgu'r dysgwr ymhellach. Mae Hattie (2012 t.164) yn darparu'r cwestiynau a ganlyn yn sail i arfer o'r fath:

- ❖ Beth a wnaethon nhw ei ddeall ac na wnaethon nhw ei ddeall yn y gwersi?
- ❖ Beth wnaethon nhw pan nad oeddynt yn deall?
- ❖ A wnaethon nhw ofyn am help (neu beidio)?
- ❖ Beth oedd ymatebion eu cyfoedion i'w dysgu?
- ❖ Oedden nhw'n credu bod yr athro yma'n gwrando arnynt?
- ❖ Beth oedd natur y drafodaeth ymhlith myfyrwyr yn ystod y gwersi?
- ❖ Pa gwestiynau a gofynasant a beth fyddan nhw'n dal i fod eisiau ei ofyn?

Gwneud y digrybwyll, yn amlwg

Mewn unrhyw wers, mae Kennedy (2006, t.205) yn dadlau bod athrawon yn ceisio cydbwysu cymaint â chwe elfen sy'n cystadlu ar unrhyw un adeg:

1. Cwmpasu cynnwys dymunol;
2. Meithrin dysgu myfyrwyr;
3. Cynyddu parodrwydd myfyrwyr i gymryd rhan;
4. Cynnal momentwm gwersi;
5. Creu cymuned ystafell ddosbarth gwrtais; a
6. Rhoi sylw i'w hanghenion gwybyddol ac emosiynol eu hunain.

Yn aml, nid yw'r rhesymeg tu ôl i benderfyniadau a wneir wrth fynd i'r afael â'r ystyriaethau hyn yn amlwg i arsylwyr. Yn wir, efallai nad yw hyd yn oed yr athrawon yn eu hadnabod, gan eu bod yn galw ar wybodaeth o'r isymwybod 'yn y foment'. Unwaith y bydd y foment honno wedi pasio, gall y wybodaeth ddiflannu hefyd, sy'n golygu na fydd yr arsylwr yn gallu cael mynediad i'r digwyddiadau sydd wedi digwydd, na'u deall.

Burn, Hagger and Mutton (2015, p. 14) articulate this challenge in *Beginning Teachers' Learning*:

"...if we are to support beginners effectively, we first need to acknowledge just how complex the task of teaching is. If we do not adequately recognise the challenges involved in planning and structuring sequences of learning activities for up to 30 individuals, in devising and targeting questions, and framing effective feedback to their varied responses, then we will fail to prepare our trainees for the shock of that discovery"

Yn debyg i ddarpar athrawon, gall mentoriaid deimlo'n agored i niwed ac yn anffodlon cyfiawnhau ac esbonio eu gweithredoedd. Rhybuddia Eraut (2000, p.120) am beryglon gorliwio esboniadau o'u gweithredoedd i ymddangos yn fwy proffesiynol i'w darpar athrawon, yn hytrach na rhannu sylwebaeth onest ar y digwyddiadau. Unwaith yn rhagor, mae hyn yn atal y darpar athro rhag cyrchu meddyliau mewnol athro a'r adfyfrio, ansicrwydd a meddwl cyson sy'n digwydd i wella dysgu.

"(1) to provide a defensible account rather than a description of practitioners' actions and (2) to create an impression of professional control over situations which inspire confidence in them as persons/ It may seek to disguise rather than to share uncertainty and risk-taking."

Fel mentor, mae yna gamau y gellir eu cymryd i liniaru rhai o'r heriau hyn.

- ❖ Ei wneud yn glir ar ddechrau eich perthynas darpar athro/mentor eich bod yn disgwyl iddynt ofyn cwestiynau i chi am eich arfer ac yna byddwch mor agored â phosibl wrth ateb.
- ❖ Darparu cyd-destun am blant y dosbarth/iadau a rhannu gwybodaeth fewnol sydd gennych o ran sefyllfaoedd penodol.
- ❖ Cydnabod yn feddyliol eich gweithredoedd yn y dosbarth a bod yn barod i rannu'r rhesymeg ar ôl y sesiwn.
- ❖ Gofyn i'ch darpar athro ffilmio gwers a rhoi sylwebaeth ar ddigwyddiadau pwysig.

Sut i wneud y defnydd gorau o arsylwi gwersi

Esbonia Burn, Hagger a Mutton, (2015) arwyddocâd arsylwi gwersi isod:

"...as an experienced teacher, able to read a classroom fluently and to select from an extensive repertoire of well-tunes strategies, it can be all too easy to forget just how much you have learned over time, how many of your deliberate practices have now become routinised, and on how many different kinds of insight you are drawing."

Nod canllaw bach PDPA yw cefnogi darpar athrawon wrth ddatblygu dealltwriaeth o'r hyn maent yn ei arsylwi mewn ystafell ddosbarth ac i ddarparu bonion cwestiynau a phromptiau er mwyn gwneud y digrybwyll, yn *amlwg*.

Nid yw darpar athrawon yn debygol o fod yn meddu ar strategaethau priodol i ddadansoddi'r hyn maent

yn ei arsylwi ac efallai na fydd ganddynt yr hyder i gwestiynu eraill er mwyn cyrraedd y pwynt hwn. Yn debyg, efallai na fydd ymarferwyr profiadol bob tro'n ymwybodol o effaith neu natur eu gweithredoedd. Ceisia'r cwestiynau hyn bontio'r bwlch hwn a chefnogi a datblygu eu dealltwriaeth. Mae wedi'i seilio'n bennaf ar ganfyddiadau Kennedy (2006) sy'n dod i'r casgliad bod athrawon yn ceisio mynd i'r afael â chwe phryder sy'n cystadlu â'i gilydd ar yr un pryd. Cyfeiriwch at y canllaw bach 'arsylwi ar wers' am strategaethau ychwanegol, yma:

[PDPA-APLP - Llawlyfrau a Chanllawiau - All Documents \(sharepoint.com\)](#)

Gosod Targedau CAMPUS

Mae gosod targedau mewn modd uchelgeisiol, cyraeddadwy a bwriadus yn rhywbeth y dylai pob mentor anelu ato. Mae gosod targedau fel hyn yn offeryn pwerau ar gyfer rhoi i ddarpar athrawon y sgiliau angenrheidiol er mwyn gwneud cynnydd.

Gosodir targedau ffurfiannol mewn dyddlyfrau dysgu a chyfarfodydd â mentoriaid bob pythefnos, maent hefyd yn chwarae rôl allweddol o ran cefnogi cynnydd pan gânt eu cytuno mewn Sgyrsiau Proffesiynol ac ar adroddiadau crynodol.

Mae model awgrymedig ar gyfer pennu targedau wedi'i addasu o Fletcher-Wood (2016):

- ✓ **Canmol** – beth mae'r darpar athro wedi'i wneud yn arbennig o dda?
- ✓ **Holi** – ar ba agwedd o ddysgu ac addysgu hoffwn i ganolbwyntio? Ar beth wnaeth y darpar athro sylwi am yr agwedd honno?
- ✓ **Targed CAMPUS** – beth hoffwn i i'r darpar athro ei newid am ei addysgu?
- ✓ **Ymarfer/Atgyfnerthu/Cynllunio** – sut gallwn ni droi'r syniad hwn o newid yn realiti?

Mae canllaw ychwanegol ar osod targedau CAMPUS ar gael isod:

Acronym yw CAMPUS sy'n cefnogi gosod targedau effeithiol. I sicrhau bod targedau'n glir a phwrsol, dylent fod yn:

Cyraeddadwy
Amserol
Mesuradwy
Penodol
Uchelgeisiol
Synhwyrol

Ceir rhagor o arweiniad isod:

Engbreiffiau o Dargedau CAMPUS

Targed 1:

Sefydlwch arferion eglur ar ddechrau gwersi i sicrhau bod dysgwyr yn barod i ddysgu.

Darparwch gyfarwyddiadau eglur ar gyfer dysgwyr er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o ddisgwyliadau ynghylch newid. Gallai tystiolaeth o lwyddiant fod y plant yn eistedd, yn edrych tuag at y blaen a dim tystiolaeth o amharu lefel isel. Ceisiwch fodloni'r targed hwn o fewn pythefnos, yn rhan o addysgu'r pwnc mathemateg newydd.

Targed 2:

Sicrhewch eich bod yn herio dysgwyr 'mwy abl a thalentog' mewn sesiynau llythrennedd trwy gyflwyno adnoddau sy'n ymestyn eu geirfa

Darparwch grŵp 'olewydd' gydag adnoddau sy'n ymestyn eu geirfa a'u hannog i ddewis geiriau cyfystyr uchelgeisiol ar gyfer berfau cyffredin yn eu hysgrifennu creadigol. Dylai tystiolaeth o lwyddiant fod yn amlwg yn llyfrau ILIC y dysgwyr a thrwy eu hunanasesu. Ceisiwch gyrraedd y targed hwn o fewn un wythnos, gan ddilyn ein sesiwn ysgrifennu creadigol ar ddydd lau.

Targed 3:

Dechreuwch adeiladu perthnasau pwrsol gyda rhieni/gofalwyr trwy eu cyfarch yn y bore ac yn y prynhawn wrth giât yr ysgol.

Cyflwynwch eich hun i rieni/gofalwyr wrth y giât. Lle bo'n briodol, rhwch adborth ar rai o ymdrechion y dysgwr i'r rhiant/gofalwr sy'n ei gasglu o'r ysgol. Gall dangosyddion llwyddiant gynnwys effaith bositif ar ymdrechion y dysgwyr yn y dosbarth. Dylech gyrraedd y targed hwn o fewn un wythnos.

Targed 4:

Gwella effeithiolrwydd cyfnodau newid

Cynllunio'n ofalus sut y byddwch yn dod ag un rhan o wers i ben a symud ymlaen i'r nesaf.

Sicrhewch eich bod wedi ystyried sut y caiff adnoddau eu dosbarthu a sut y caiff myfyrwyr eu hannog i gysylltu eu dysgu o un rhan o'r dysgu i'r nesaf. Sicrhewch eich bod yn lleihau cyfleoedd i fyfyrwyr gael tynnu eu sylw oddi ar y dasg. Defnyddiwch rai o'r strategaethau y gwnaethoch eu nodi wrth arsylwi yr wythnos ddiwethaf ym mhob un o'ch gwersi yr wythnos hon.

Sgyrsiau Anodd

Gall fod adegau pryd mae'n ofynnol i fentoriaid gynnal beth allai fod yn sgyrsiau anodd â'u menteion. Er mwyn cefnogi mentoriaid a darpar athrawon mewn sefyllfaoedd o'r fath, mae darn o *The Teacher Educator's Handbook* (White 2022, t.14), sy'n cynnwys awgrymiadau am strategaethau i helpu i fframio'r sgwrs, wedi'i gynnwys isod:

Does neb yn hoffi cael sgyrsiau lle mae gwrthdaro ond os ydym yn gwerthfawrogi ein myfyrwyr, ein cydweithwyr neu ein gweithwyr, mae angen i ni wneud amser i siarad yn onest, yn rhesymegol ac yn eglur os oes problem mae angen mynd i'r afael â hi. Bydd cael cynllun yn helpu. Wrth i ni ddelio â materion anodd, rydym hefyd yn modelu proses sy'n dangos parch i bawb, felly mae angen i ni fod yn broffesiynol a chadw ein hemosiynau dan reolaeth.

❖ Pryd?

Gorau po gyntaf y byddwch yn cynnal y sgwrs er mwyn osgoi ymestyn unrhyw bryder sydd gennych. Ystyriwch beth bydd yn digwydd i'r ddau ohonoch ar ôl y sgwrs. Nid yw o gymorth cynnal sgwrs anodd yn

hwyr brynhawn Gwener, neu'n union cyn addysgu dosbarth heriol.

Rhowch ddigon o amser i'r unigolyn allu ystyried beth sy'n cael ei ddweud ac i adfyfrio. Gwnewch yn siŵr ei fod yn cael cyfle i fynegi'i hun.

❖ Ble?

Mae dod o hyd i leoliad preifat a phroffesiynol yn bwysig.

❖ Beth fyddwch chi'n ei ddweud?

Mae'n bwysig glynw at y ffeithiau. Disgrifiwch yn ofalus yr ymddygiad sydd wedi ysgogi'r sgwrs. Disgrifiwch effaith yr ymddygiad ar bobl eraill, er enghraifft: myfyrwyr, cydweithwyr neu chi'ch hun. Sicrhewch fod yr unigolyn yn deall pam bod angen newid.

Cadwch y Safonau Athrawon a'ch polisïau ysgol/partneriaeth eich hun wrth law. Os bydd angen i chi dynnu sylw at rywbeth ynddyn nhw, rhowch amser i'r unigolyn ddarllen ac adfyfrio cyn ymateb. (Fel arfer nid oes angen y lefel hon o fanylion).

❖ Ble ddylech chi ganolbwyntio?

Rhaid i chi ddangos parch i'r unigolyn fel person, gan ganolbwyntio ar ei ymddygiad ac nid ar yr unigolyn.

Bydd angen i chi ganolbwyntio hefyd ar y datrysiad, y ffordd ymlaen – sut olwg bydd ar y dyfodol? Oes gweithdrefnau penodol i'w rhoi yn eu lle, neu oes angen ymrwymiad llafar?

❖ Beth am wedyn?

Adfyfiriwch ar sut gallech fod wedi gwneud yn well ac wedyn symud ymlaen. Meddyliwch sut gallwch gefnogi'r unigolyn pan welwch ef/hi nesaf.

Gweithgarwch mentoriaid yn ystod PAP

Mae newid safbwynt mentoriaid (gan ddarparu cymorth perthnasol i gynnydd y darpar athro) yn elfen hanfodol o fodel PDPA o fentora. O ganlyniad, mae pob PAP yn cynnwys cyfred o ddigwyddiadau allweddol sy'n cefnogi'r ymagwedd hon. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu isod:

- ❖ **Ymgynefino yn yr ysgol PAP** (gan gynnwys hyfforddiant Diogelu, dosbarthu polisïau allweddol, rhoi gwybod am ethos yr ysgol ayb)
- ❖ **Cyfnod paratoi** (rhoi cyfle i ddarpar athrawon arsylwi ar athrawon profiadol, cwrdd ag aelodau allweddol y staff ayb)
- ❖ **Ymweliad cynnar:** Bydd Tiwtor Prifysgol neu Arweinydd Rhwydwaith yn ymweld â phobl darpar athro a mentor o fewn dwy wythnos gyntaf y PAP i weld sut mae pethau'n mynd.
- ❖ **Gweithgarwch SA Uwch Fentor:** Bydd pob Mentor Dosbarth/Pwnc yn gweithio gyda'u Huwch Fentor i nodi cryfderau a datblygu eu harfer.
- ❖ **Sgwrs Broffesiynol:** Wedi'i chynllunio i hwyluso adfyfrio dwfn mewn perthynas â chynnydd y mae'r darpar athrawon wedi'i wneud
- ❖ **Adroddiad Canol Lleoliad:** (ac eithrio BA1). Adroddiad crynodedol yn cofnodi cynnydd darpar athrawon a nodi targedau CAMPUS i gynorthwyo cynnydd.
- ❖ **Ymweliad Adolygu ar y Cyd:** Ymweliad gan Diwtor Prifysgol, Uwch Fentor neu Arweinydd Rhwydwaith i arsylwi ar wers a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth.

❖ **Adroddiad Diwedd Lleoliad:** Adroddiad crynodedol yn cofnodi cynnydd darpar athro a nodi targedau CAMPUS i gynorthwyo cynnydd yn y dyfodol.

Sylwch fod dyddiadau penodol, sy'n perthyn i'r PAP, i'w gweld yn y Llyfrynau Canllaw PAP. Mae'r dogfennau hyn ar gael yma: [Llawlyfrau a Chanllawiau](#)

Adroddiadau Canol a Diwedd Lleoliad

Beth yw'r Adroddiad Canol a Diwedd Lleoliad?

Ar bob cyfnod adrodd, rhaid i'r Mentor Dosbarth/Pwnc a/neu Uwch Fentor gwblhau'r adroddiad fel asesiad ffurfiannol o gynnydd y darpar athro hyd yma.

Ystyriaethau: Lle nad yw'r cyfle wedi codi eto i ddarpar fyfyrwr gymryd rhan mewn rhai elfennau o'r ddarpariaeth, gwnewch nodyn o hyn yn yr Adolygiad.

Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r adroddiadau?

Gweler y canllaw PAP sy'n gysylltiedig â rhaglen astudio'r darpar athro.

Ymhle gallaf ddod o hyd i'r templed ar gyfer yr adroddiadau?

Mae hwn ar gael ar SharePoint PDPA, yma: [Templedi Adroddiadau](#)

Ar beth ydw i'n adrodd?

Mae mentoriaid yn ystod cynnydd y darpar athro mewn perthynas â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer SAC. Byddwch yn adrodd yn erbyn pob safon i ddangos p'un a yw'r darpar athro 'ar y trywydd iawn', yn 'rhagori ar ddisgwyliadau' neu'n 'achos pryder' (AP). Os yw darpar athro yn Achos Pryder, y disgwyl yw y byddai'r addysgwr athrawon prifysgol-seiliedig a/neu'r Arweinydd Rhwydwaith yn ogystal â'r darpar athro eisoes wedi cael gwybod am hyn.

Y Sgwrs Broffesiynol

Mae'r sgwrs broffesiynol yn rhan o fodel PDPA o fentora ac fe'i cynlluniwyd i hwyluso adfyfrio dwfn mewn perthynas â chynnydd mae'r darpar athrawon wedi'i wneud. Dylai'r sgwrs fod yn un bositif; lle bydd cyfle i drafod profiadau ar eu Profiad Addysgu Proffesiynol, gan nodi meysydd o gryfder yn eu set sgiliau a thargedau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y dyfodol. Dylai'r Sgwrs Broffesiynol fod yn sail i'r adroddiad canol a diwedd lleoliad.²

Mae'r Sgwrs Broffesiynol yn:

- ✓ Gyfle i ddarpar athrawon adfyfrio ar y cynnydd, aent wedi'i wneud a chyfleu'r cynnydd maen yn teimlo maent wedi'i wneud mewn agweddau allweddol ar eu harfer mewn ffordd gefnogol a chalonogol.
- ✓ Cydnabod amrywiaeth y profiadau mae darpar athrawon wedi'u cael.
- ✓ Ymagwedd gyfannol at drafod y safonau SAC, a chyfle i ddarpar athrawon ffocysu ar rai o'r safonau maent yn teimlo eu bod wedi ymdrin â nhw'n benodol ers dechrau eu PAP.
- ✓ Cyfle i ddarpar athrawon drafod a chytuno ar dargedau ar gyfer symud eu harfer ymlaen.
- ✓ Ymagwedd gydweithredol tuag at gwblhau'r adroddiad crynodedol perthnasol.

Nid ydy'r sgwrs broffesiynol yn:

- ✗ Model diffygion lle bydd darpar athrawon yn teimlo'u bod dan anfantais.
- ✗ Cyfweiliad neu brawf l asesu cynnydd darpar athro tuag at SAC.

Tystiolaeth i gefnogi'r Sgwrs Broffesiynol

Mae Earl & Timperley (2009) yn dadlau "conversations that are grounded in evidence and focused on learning from that evidence have considerable potential to influence what happens in schools and ultimately enhance the quality and efficiency of student learning." Felly mae defnyddio tystiolaeth yn rhan annatod o gefnogi'r Sgwrs Broffesiynol. Dyma rai syniadau am y mathau o ffynonellau o dystiolaeth y gellir cyfeirio atynt yn ystod y Sgwrs Broffesiynol:

- ❖ Sylwadau a wneir yn y Dyddlyfr Dysgu
- ❖ Nodiadau o'r cyfarfodydd bob pythefnos
- ❖ Cyfeiriadau at ddarlennu pellach a chyfleoedd dysgu proffesiynol a gymerwyd
- ❖ Cyfeiriadau at gynnwys modylau ac aseiniadau a sut gallen nhw fod wedi arwain at gynnydd o ran arfer

Pryd fydd y Sgwrs Broffesiynol yn digwydd?

Cynhelir sgwrsiau proffesiynol cyn cwblhau'r adroddiadau canol lleoliad. Gweler y canllaw Profiad Addysgu Proffesiynol a

Lle a phryd fydd y Sgwrs Broffesiynol yn digwydd?

Caiff prif bwyntiau'r drafodaeth yn ystod y Sgwrs Broffesiynol eu defnyddio i lunio'r adroddiad canol

² Sylwch nad oes angen adroddiadau canol lleoliad ar gyfer darpar athrawon BA1

neu ddiwedd lleoliad a fydd yn ei dro'n cael ei arbed ar SharePoint PDPA. Dylai'r Mentor Dosbarth/Pwnc drefnu'r sgwrs broffesiynol ac fe ddylai bara tua 45-60 munud.

Llinell amser sgwrs broffesiynol

Cyn

- Dylid rhoi o leiaf 2 ddiwrnod o rybudd i ddarpar athrawon cyn cynnal eu Sgwrs Broffesiynol fel bod ganddynt amser i baratoi, a chael gwybod bryd hynny pwy fydd yn hwyluso'r cyfarfod.
- Dylid gwahodd y darpar athro i ddechrau trwy ddewis agwedd yr hoffent ei rhannu yn dystiolaeth o ymgysylltiad a chyflawniad y gallant baratoi ar ei gyfer.

Yn ystod

- Dylid gofyn i'r darpar athrosiarad am eu dewis agwedd a chyfeirio at dystiolaeth sydd ganddynt o'r ymgysylltiad a'r cyrhaeddiad. Sylwch: ni ddylid disgwyl i ddarpar athrawon baratoi PowerPoint neu fath arall o gyflwyniad.
- Dylai'r mentor dosbarth/pwnc wrando ar yr hyn sydd gan y darpar athro i'w ddweud a gofyn cwestiynau sy'n berthnasol i'r hyn mae'r darpar athro'n ei ddweud.
- Dylid bod elfen adfyfyriol i'r Sgwrs Broffesiynol lle bydd y darpar athro'n edrych nol ar dargedau blaenorol a nodi sut mae'r cynnydd maent wedi'i wneud wedi caniatáu iddynt symud eu harfer ymlaen.
- Yna, dylai'r mentor dosbarth/pwnc wneud nodiadau a fydd yn sail i'r adroddiad perthnasol

Ar ôl

- Dylai'r Mentor Dosbarth/Pwnc ddrafftio'r adroddiad canol lleoliad a dylai'r darpar athro ei ddarllen cyn iddo gael ei gyflwyno'n fersiwn terfynol ar wefan SharePoint PDPA.

Mae PDPA yn cynnwys pymtheg Ysgol Partner Arweiniol ac mae pob un ohonynt yn goruchwyllo 'rhwydwaith' o ysgolion partner. Cyfrifoldeb yr Arweinydd Rhwydwaith yw cydlynw gweithgarwch AGA a bwydo i mewn i brosesau sicrhau ansawdd ar draws y rhwydwaith.

Mae'r berthynas rhwng Mentoriaid Dosbarth/Pwnc ac Arweinwyr Rhwydwaith yn allweddol wrth gynnal darpariaeth addysg athrawon o ansawdd mewn ysgolion.

Cyfarfodydd Rhwydwaith

Mae cyfarfodydd rhwydwaith yn galluogi i Uwch Fentoriaid ac Arweinwyr Rhwydwaith o bob rhwydwaith gwrdd i drafod materion sy'n ymwneud â phrofiadau yn yr ysgol. Trefnir y cyfarfodydd hyn gan Arweinwyr Rhwydwaith ac fe'u cynhelir yn ystod ffenestr bob pythefnos ar Galendr PDPA. Gallwch weld y rhain yma:

<https://teamup.com/ksyu78okbjkw1h7vtc>

Yn ystod y cyfarfodydd hyn, trafodir ystod o bynciau, a allai gynnwys:

- ❖ Cynnydd darpar athrawon
- ❖ Terfynau amser PAP sydd ar y gorwel (e.e. ffenestr Sgwrs Broffesiynol, terfyn amser yr adroddiad canol lleoliad ayb)
- ❖ Rhannu arferion mentora effeithiol
- ❖ Gweithgarwch sicrhau ansawdd
- ❖ Digwyddiadau partneriaeth

Sylwch fod disgwyl i bob Uwch Fentor fynychu Cyfarfodydd Rhwydwaith. Lle nad yw hyn yn bosibl, bydd disgwyl i aelod arall o staff o'r ysgol bartner fod yna yn eu lle.

Trefnu lleoliadau PAP

Caiff darpar athrawon eu dyrannu i rwydwaith wedi iddynt gofrestru ar raglen BA neu TAR. Fel arfer, bydd

hwn yn rwydwaith y mae ei ysgolion wedi'u lleoli yn yr un ardal ddaearyddol â chyfeiriad cartref y darpar athro. Yna caiff manylion cyfeiriad darpar athrawon, profiad gwaith blaenorol a'u mynediad i gar/beic modur ei rannu gydag Arweinwyr Rhwydwaith i alluogi i leoliad PAP gael ei drefnu. Lle bynnag y bo'n bosibl, caiff darpar athro ei leoli mewn ysgol PAP o fewn 40 milltir o'u cyfeiriad. Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd gofyn i ddarpar athrawon deithio'n bellach na 40 milltir.

Cyn dyrannu darpar athrawon, gofynnir i bob ysgol partner gwblhau 'cynnig lleoliad' ar gyfer darpar athrawon er mwyn galluogi i Arweinwyr Rhwydwaith ddyrannu darpar athro priodol i ysgol. Mae'r ffurflen hon ar gael yma:

<https://forms.office.com/pages/responsepage.aspx?id=-REPTm4EBUWcuNshUjEeIVLOGCcHuntKggyu51pyfHpUQkhNMEY2RDlPWfDIQVhMRFFI>

Arweinwyr Rhwydwaith sydd yn y sefyllfa orau i oruchwyllo'r broses hon o ganlyniad i'w gwybodaeth am y rhwydwaith.

Digwyddiadau PDPA

Gwahoddir holl bartneriaid ysgol i ddigwyddiadau PDPA, sy'n cynnwys y Gynhadledd Anghenion Dysgu Ychwanegol, Anelu at Ragoriaeth a Diwrnodau Partner. Rhennir manylion y digwyddiadau hyn yn y newyddlen wythnosol.

Ymhle mae gwybodaeth ychwanegol ar gael?

Er bod y llawlyfr hwn yn cynnwys trosolwg o wahanol elfennau PDPA, mae canllawiau a dogfennau ychwanegol hefyd ar gael. Ar gyfer partneriaid ysgol-seiliedig, mae'r dogfennau hyn ar gael ar SharePoint PDPA, drwy ddefnyddio'r isod. Sylwch fod gan darpar athrawon fynediad i'r dogfennau hyn hefyd trwy Moodle.

Llyfrynnau Canllaw PAP

Mae canllawiau ar gyfer PAP (BA a TAR) yn cynnwys gwybodaeth benodol ynghylch yr hyn a ddisgwylir gan ddarpar athrawon a mentoriaid yn ystod pob bloc lleoliad, gan gynnwys dyddiadau pwysig. Mae'r dogfennau hyn ar gael yma:

[Llawlyfrau a Chanllawiau](#)

Canllaw PhaseSwap

Rhoddir cyfle i ddarpar athrawon BA2, BA3 a TAR yn treulio amser yn archwilio arfer mewn lleoliad ysgol gynradd neu ysgol uwchradd. Mae hyn yn caniatáu i ddarpar athrawon gael profiad o addysgu a dysgu o fewn gwahanol gyfnod oed a chyd-destun i'w dewis gyfnod oed.

BA2 / BA3: 20/05/25 – 21/05/25

TAR: 04/02/25 – 05/02/25

Ceir canllawiau pellach, yma:

[Llawlyfrau a Chanllawiau](#)

Canllawiau Profiadau Dewisol

Mae'r profiadau dewisol yn gyfle datblygu proffesiynol heb asesiad ar gyfer darpar athrawon BA3 a TAR. Caiff ei gynnal mewn lleoliad ysgol ac mae'n ffocysu ar ennill gwybodaeth a dealltwriaeth dyfnach am faes sy'n ymwneud â diddordeb personol. Bydd y darpar athrawon yn dilyn maes

pwnc penodol neu thema o ddiddordeb trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau fel:

- Arsylwi
- Cynnal cyfweiliadau
- Darllen ymchwil
- Cymryd rhan mewn dialog proffesiynol

BA3: 25/11/24 – 29/11/24

TAR: 12/03/25 – 14/03/25

Ceir canllawiau yma:

[Llawlyfrau a Chanllawiau](#)

Canllaw Profiadau Amgen

Mae cael profiad o addysg mewn gwahanol leoliadau'n hanfodol ar gyfer datblygiad plant ac mae'n hanfodol bod athrawon yn deall yr elfen hon. Mae'r amgylcheddau hyn yn cynnig cyfleoedd unigryw i blant ddysgu trwy weithgareddau ymarferol, gan feithrin creadigrwydd, annibyniaeth a gall greu cyswllt dyfnach gyda'r byd naturiol. Gall profiadau o'r fath hyrwyddo iechyd corfforol, sgiliau cymdeithasol, a llesiant emosiynol, dan ddarparu addysg gyflawn tu hwnt i'r ystafell ddosbarth draddodiadol. Mae cael mewnwelediadau i'r lleoliadau addysgol amrywiol hyn yn amhrisiadwy i ddarpar athrawon. Mae'n rhoi iddynt strategaethau addysgu arloesi a safbwynt ehangach ar ddatblygiad plant, gan gyfoethogi eu gallu i greu profiadau dysgu diddorol ac effeithiol. At hynny, mae cael y wybodaeth a'r profiad hwn yn gwneud athrawon yn fwy amryddawn a deniadol i gyflogwyr y dyfodol, gan ddangos eu hymrwymiad i addysg gynhwysfawr a deinamig.

Fel y cyfryw, rhaid i ddarpar athrawon gwblhau dau ddiwrnod o Leoliadau Amgen yn ystod y flwyddyn TAR ac ym mlwyddyn 2 y rhaglen BA. Bydd angen iddynt ystyried ymhle yr hoffent fynd a chysylltu gyda sefydliadau i drefnu hyn.

Profiadau Amgen TAR - 06/02/25 – 07/02/25

Profiadau Amgen BA2 - Ar ôl hanner tymor

Bydd lleoliadau amgen BA2 yn cael eu cynnal ar ôl Hanner Tymor mis Mai, a rhennir y dyddiadau gyda darpar athrawon ar ôl egwyl y Nadolig.

Mae llythyrau a sgrïptiau sampl ar y deilsen Lleoliadau Amgen ar gael i ddarparu athrawon ar Moodle. Bydd y rhain yn cefnogi darpar athrawon wrth gysylltu gyda sefydliadau a chynnal trafodaethau ynghylch Lleoliadau Amgen. Ymhlith yr enghreifftiau blaenorol o lefydd yr aeth myfyrwyr, mae; ysgolion fforest, canolfannau dysgu awyr agored, amgueddfeydd a charchardai.

Prosesau a Gweithdrefnau Ymyrraeth

O bryd i'w gilydd, bydd darpar athro ei hun – neu un neu ragor o'r 'tîm o amgylch y darpar athro' – yn nodi bod angen cymorth ychwanegol, strwythuredig a mwy dwys arno ef/hi. Bryd hynny, bydd PDPA yn rhoi cynlluniau cymorth ar waith ac yn gweithredu'r Broses Ymyrraeth.

Mae llawer o resymau pam y gallai darpar athrawon gyrraedd man lle bo angen rhoi cynlluniau cymorth ar waith. Mae gweithredu'r Broses Ymyrraeth yn caniatáu rhoi cymorth ar waith cyn gynted ag y bo modd ac yn sicrhau bod y darpar athro'n cael y cyfle gorau i lwyddo, drwy gynllunio camau gweithredu'n amserol a gosod targedau penodol. O ganlyniad, trwy weithio mewn partneriaeth, gellir adfer y sefyllfa'n aml a'i newid yn un o lwyddiant.

Sylwch fod tri cham i'r Broses Ymyrraeth. Mewn achosion lle bo diffyg / dim cynnydd ar ôl ymyrraethau cychwynnol, gall darpar athrawon symud ymlaen i gam 2 (ymyrraeth estynedig) a cham 3 (hysbysu ynghylch methu).

Ceir Prosesau a Gweithdrefnau Ymyrraeth, yma:

[Proses Ymyrraeth](#)

Canllaw ar y Dyddlyfr Dysgu

Mae'r Dyddlyfr Dysgu'n ddogfen allweddol wrth ddogfennu adfyfrio a chynnydd darpar athrawon. Disgwylir i ddarpar athrawon ddefnyddio'r dyddlyfr bob dydd, gyda mentoriaid a darpar athrawon yn rhoi sylwadau, gofyn cwestiynau ac adfyfrio ar brofiadau yn ystod PAP. Fe ddylai hefyd gofnodi cryfderau darpar fyfyrwyr a meysydd i'w datblygu a bwydo ymlaen i gefnogi cynnydd, gan awgrymu strategaethau, adnoddau a phrofiadau. Ceir canllawiau ychwanegol, sy'n cynnwys ffyrddiau cwestiwn a phromptiau ac enghreifftiau o ddefnydd effeithiol o'r Dyddlyfr Dysgu, yma: [Llawlyfrau a Chanllawiau](#)

Sicrhau a Gwella Ansawdd

Mae'r PDPA wedi datblygu ystod o brosesau Sicrhau a Gwella Ansawdd i gefnogi darpar athrawon a mentoriaid tra fyddant ar PAP. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ❖ Ymweliadau cynnar
- ❖ Sicrhau Ansawdd mentora a wnaed gan Uwch Fentor
- ❖ Gweithgarwch Sicrhau Ansawdd mewn cyfarfodydd Rhwydwaith
- ❖ Ymweliadau Cyd-adolygu ag ysgolion PAP
- ❖ Adborth darpar athrawon a gwerthusiadau PAP ar ganol ac ar ddiwedd lleoliadau

Ceir canllawiau ychwanegol mewn perthynas â'r gweithgareddau hyn, yma:

[Llawlyfrau a Chanllawiau](#)

Mae rhaglenni PAP PDPA wedi'u cynllunio i gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Caiff yr ymrwymiad hwn ei adlewyrchu yn y Memorandwm Cytundeb sy'n tanategu gwaith PDPA ac mae'r rolau a chyfrifoldebau sydd ynghlwm â hyn wedi'u hamlinellu isod.

Mae'r llwybr ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn amodol ar gydweithio agos rhwng y partneriaid a ganlyn:

- ❖ Rhagoriaith, Canolfan Gwasanaethau Cymraeg y Brifysgol
- ❖ Tiwtoriaid Prifysgol
- ❖ Ysgolion Partner Arweiniol
- ❖ Ysgolion Partner a Mentoriaid iaith

Mae datblygiad Fframwaith Cymhwysedd y Gymraeg ar gyfer Athrawon yn 2019-2020, a gofynion Llywodraeth Cymru, yn golygu mai dyna yw'r prif offeryn erbyn hyn ar gyfer mesur cynnydd ieithyddol ein darpar athrawon. Ceir copi o hyn ar

<https://hwb.gov.wales/api/storage/2dcc47ea-06e9-46ea-85bd-b1b0a927bd34/language-competency-framework-for-education-practitioners-final-web-framework-w-21220.pdf>

Yn rhan o'r gwaith hwnnw, bydd angen sicrhau rhaglen datblygu iaith safonol a hyfforddiant caffael iaith ar gyfer darpar athrawon a strwythur cefnogi cadarn a fydd yn eu galluogi i gyrraedd eu potensial trwy:

- ❖ symud ar hyd continwwm y Fframwaith yn ystod eu hamser yn y brifysol
- ❖ datblygu fel athrawon sy'n gallu cyflwyno Cymraeg, fel pwnc a chyfrwng, trwy dulliau

cyffrous ac arloesol yn unol â gofynion y Cwricwlwm newydd.

I gyflawni hyn, caiff cyfraniad pob partner i'r broses ei ddiffinio'n glir isod:

Canolfan Gwasanaethau Cymraeg Prifysgol Cymru

RHAGOR
iaith

Cyd-destun

Yn ystod 2019-2020, roedd Rhagoriaeth yn gyfrifol am arwain creu a chynnal cynllun peilot y Fframwaith ar ran Llywodraeth Cymru. Gwnaethant sicrhau bod pob darpar athro wedi cael y cyfle i dderbyn sesiynau iaith a methodoleg y ystod eu hamser yn y Brifysgol a hefyd yn cael eu lefelu yn erbyn y Fframwaith gan staff y Ganolfan.

Er mwyn sicrhau eu prif rôl yn y broses, cynhaliodd Rhagoriaeth nifer o sesiynau gyda'r Tiwtoriaid Prifysgol, Arweinwyr Rhwydwaith a mentoriaid iaith.

Yn 2024-2025, bydd Rhagoriaeth yn parhau gyda'i rôl wrth gynnig sesiynau hyfforddiant iaith i fyfyrwyr yn ystod eu hamser yn y Brifysgol. Fe fydd hefyd yn parhau gyda'r rôl o gymedroli portffolios darpar athrawon a'u cadarnhau yn erbyn y Fframwaith (gweler manylion pellach ar gynnwys portffolios isod).

Ysgolion Arweiniol

Mae ysgolion arweiniol PDPA yn gyd-gyfrifol gyda'r Brifysgol am helpu gyda datblygu a hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae Ysgolion Arweiniol yn cynorthwyo gyda gweithrediad y Fframwaith Cymwyseddau Iaith trwy:

- ❖ nodi Cydlynnydd y Gymraeg i sicrhau cymorth ar gyfer datblygu'r Gymraeg ymhlith y darpar athrawon ar draws y rhwydwaith
- ❖ nodi Mentoriaid Iaith o fewn yr ysgolion partner er mwyn datblygu sgiliau iaith Cymraeg darpar athrawon a'u mesur yn erbyn y Fframwaith – gan sefydlu clystyrau cymorth lle bo angen.

Fel sy'n wir am bob agwedd arall ar y model achrededig, rhaid i'r Brifysgol, rhwydweithiau ac ysgolion arweiniol ddangos cynnydd yn yr agwedd hon ar y model. Felly dylai **agendau cyfarfodydd rhwydwaith** gofnodi'r drafodaeth a'r prosesau cynllunio sy'n gysylltiedig â nhw.

Gofynion y Fframwaith Cymwyseddau Iaith ar gyfer darpar athrawon:

Gofynnir i bob darpar athro lunio portffolio blynyddol o ddeunyddiau sy'n dangos tystiolaeth o sut maent yn defnyddio a chyflwyno'r Gymraeg yn rhan o'u hyfforddiant. Rhaid i ddarpar athrawon lanlwytho eu portffolio o dystiolaeth i'r PDP.

‘Partneriaeth ar Waith’ – Manteision bod yn rhan o PDPA

Mae is-grŵp Ymchwil ac Ymholi Grŵp Arweinyddiaeth PDPA wedi creu dogfen i ddangos manteision bod yn rhan o PDPA ar gyfer PCYDDS, ysgolion partner a darpar athrawon. Mae'r ddogfen hon hefyd yn ymateb i *Gyfarwyddyd Ategol: Arolygu ysgolion sy'n ysgolion arweiniol* mewn partneriaeth addysg gychwynnol athrawon ac yn darparu promptiau ar gyfer ysgolion y gallant eu haddasu i weddu eu cyd-destunau eu hunain. Mae'r dogfen hon ar gael yma:

[Partneriaeth ar Waith](#)

Ymholiad Proffesiynol ar gyfer

Ysgolion Partner Arweiniol

Mae cefnogi ysgolion i ddatblygu ymagwedd ymholgar sy'n canolbwyntio ar arfer yn rhan allweddol o'n gwaith partneriaeth. Mae rhai ohonoch eisoes wedi bod yn rhan o'r broses hon ac wedi cael y cyfle gwerthfawr i gyflwyno eich canfyddiadau i'r bartneriaeth ehangach. Mae'r rhain yn ddarnau o waith pwysig wrth i ni symud tuag at datblygu proffesiwn sy'n ymgysylltu ag ymchwil yng Nghymru.

Rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn cefnogi carfan arall o ysgolion i gwblhau cylch ymholi yn ystod blwyddyn academiaidd 2024/25. Byddwn yn gallu cefnogi wyth ysgol arweiniol yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r model yn un dibynadwy a chaiff ysgolion eu cefnogi gan ddau diwtor prifysgol trwy gydol y broses. Mae strwythur y model yn cynnwys cymryd rhan mewn pedwar gweithdy yn yr achos cyntaf, sy'n para tua dwy awr yr un.

Bydd y gweithdai'n cwmpasu'r canlynol:

- ❖ Ymchwil weithredol a nodi cwestiwn ymchwil
- ❖ Cyrchu gwybodaeth ymchwil
 - Defnyddio'r gronfa ddata EBSCO a ddarperir trwy gofrestru â'r CGA
 - Gwybod sut i ddarllen ymchwil yn feirniadol ac ar gyfer prif bwyntiau
- ❖ Moeseg ymchwil yn yr ystafell ddosbarth
- ❖ Dylunio ymchwil ac offer ymchwil

Dilynir y gweithdai gan ddwy sesiwn bwrpasol bellach gydag ysgolion arweiniol unigol neu grwpiau/clystyrau sy'n dewis gweithio ar faes ymholi cyffredin, gyda'r nod o gwblhau cylch erbyn diwedd y flwyddyn academiaidd nesaf. Bydd tîm y brifysgol yn gweithio gyda chi fel cyfeillion beirniadol, gan gefnogi'r broses ymholi a datblygiad sgiliau a ffyrdd o feddwl ymholi.

Bydd dyddiadau'r gweithdai olaf yn cael eu cytuno gyda'r ysgolion sy'n cymryd rhan ond byddant yn cwmpasu:

- Gwneud synnwyr o ddata: dadansoddi a chanfyddiadau
- Gwerthuso a chamau nesaf.

Mae ffocws yr ymholiad yn fater ar gyfer eich cymuned ysgol ond mae'n rhaid bod ganddo wir werth ar gyfer eich ysgol **chi** yn eich cyd-destun **chi**. Fodd bynnag, gall fod o ddiddordeb i chi bod tîm y brifysgol wedi ffocysu'n ddiweddar ar ymholiad yng

nghyd-destun dilyniant dysgu – efallai y byddech yn dymuno ystyried y ffocws hwn.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn cylch ymholi, cysylltwch â'n swyddfa partneriaeth (partneriaeth@pcydd.ac.uk), gan nodi'r canlynol. (Noder hefyd nad oes costau ynghlwm â hwn y tu hwnt i ryddhau amser y sawl sy'n cymryd rhan):

- Y maes ymholi dewisol ar gyfer eich ysgol/clwstwr/grŵp, pe bai hyn gennych mewn golwg yn barod, os na fe weithiwn gyda chi i ddatblygu hyn.
- Sicrwydd cymorth eich UDA ar gyfer y broses ymholi a rhannu eich canfyddiadau

Fe wyddoch o bosib ein bod hefyd yn cynnig rhaglen dysgu proffesiynol fasnachol yn y maes hwn, *Cyflwyniad i Ymholi Proffesiynol* (manyion ar ein gwefan) sydd yn adeiladu ar waith y Brifysgol gyda'r Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol (PYPC). Mae hwn yn brosiect cydweithredol sy'n cynnwys partneriaid o bob rhan o Gymru ac yn cefnogi athrawon i ymwneud ag ymchwil ac i ymchwilio eu hunain. Mae'r rhaglen hon ar gael i bob ysgol ond tybiwn y bydd ysgolion arweiniol yn dymuno blaenoriaethu ymrwymo i raglen *Ymholiad Proffesiynol - ysgolion arweiniol PDPA*.

Dysgu Proffesiynol

Fel y trafodwyd, partneriaeth o ysgolion a'r brifysgol yw PDPA sy'n cydweithio i greu a darparu rhaglenni dysgu proffesiynol ar draws continwrm addysg athrawon. Nid yw'r rhaglenni hyn yn gyfyngedig i AGA, wrth gwrs, ac maent yn cynnwys darparu cyfleoedd i athrawon ym mhob cyfnod o'u gyrfa broffesiynol.

O'r herwydd mae PDPA wedi ymrwymo i'r canlynol:

- ❖ Datblygu a modelu dull cydweithredol go iawn o ddarparu AGA a dysgu proffesiynol yng Nghymru;
- ❖ Cyfrannu at agenda cenedlaethol ar gyfer gwella addysg trwy adeiladu capasiti trwy addysg athrawon ar gyfer y gweithlu addysg ehangach.

Mae PDPA hefyd yn anelu at ddarparu portffolio o raglenni sy'n canolbwyntio ar ddatblygu athrawon proffesiynol sydd:

- ❖ Yn bodloni'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth;
- ❖ Yn barod i ddarparu cwricwlwm newydd i Gymru a galluogi plant a phobl ifanc i wireddu eu pedwar diben;
- ❖ Yn deall y berthynas rhwng gwybodaeth ddeallusol a phrofiadol ac sy'n gallu arwain ymholiad sy'n canolbwyntio ar effaith gadarnhaol i ddysgwyr;
- ❖ Yn athrawon trawsnewidiol sy'n ymgorffori model dysgu trawsnewidiol PDPA.

I gael rhagor o wybodaeth am yr MA mewn addysg, cysylltwch â Rheolwr y Rhaglen, Alison Evans (Alison.evans2@uwtsd.ac.uk).

I gael rhagor o wybodaeth am y Ddoethuriaeth mewn Addysg (EdD), cysylltwch â'r Cyfarwyddwr Rhaglen, Catherine Morgan (c.morgan@uwtsd.ac.uk) neu ewch i: www.pcydds.ac.uk/doctorate-education.

Yn rhan o'u Cytundeb Dealltwriaeth, mae Ysgolion Arweiniol wedi ymrwymo i wneud y canlynol:

- ❖ Sicrhau y caiff staff yn yr ysgol gymorth a mynediad at ddysgu proffesiynol priodol i sicrhau bod modd iddynt ddarparu gwaith mentora a chymorth o ansawdd uchel i fyfyrwyr AGA;
- ❖ Trefnu bod cyfleoedd datblygu a phroffesiynol ar gael i staff yr Athrofa yn y brifysgol pan fo'n briodol.

Gallai'r opsiynau gynnwys y canlynol:

- ❖ Cefnogi'r staff i gynyddu eu cymwysterau i lefelau 7 ac 8 trwy'r MA mewn Addysg neu'r Ddoethuriaeth mewn Addysg (EdD);
- ❖ Rhyddhau staff i gefnogi camau i gyd-greu a chyd-ddarparu rhaglenni dysgu proffesiynol;
- ❖ Mynd a chyfrannu i weithdai/seminarau ar gyfer cefnogi arfer sy'n seiliedig ar ymholi;
- ❖ Gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth, ymweliadau dysgu, ac ati.

- Straen, pryder a iechyd meddwl
- Tegwch mewn addysg
- Y Gymraeg yn y cwricwlwm
- O AGA i ANG ac ymsefydlu
- Paratoi at brifathrawiaeth
- Datblygu gydol-gyrfa i athrawon ac arweinwyr

Yn dilyn adolygiad a thrafodaeth gyda Phenaethiaid ac Arweinwyr Rhwydwaith ar draws y PDPA, drwy gydol blwyddyn academiaidd 2024/2025, bydd cyfres o weithdai/seminarau yn cael eu cynnal ar y meysydd allweddol yma:

- Llunio cwricwlwm a cynnydd dysgwyr

Caiff dyddiadau'r seminarau hyn eu cadarnhau yn y cyfarfod Grŵp Arweinyddiaeth PDPA yn ystod yr hydref 2024.

Arweinydd Rhwydwaith

Trosolwg cyffredinol o rolau a chyfrifoldebau:

1. Llysgenhadon i Bartneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa, yn cynrychioli elfennau cydberchnogaeth, llywodraethiant a chyflenwi'r rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon;
2. Cynorthwyo â'r gwaith o farchnata a recriwtio ymgeiswyr o ansawdd uchel i addysgu;
3. Cyfrannu at gyfeiriad strategol, hunanwerthusiad a phrosesau sicrhau ansawdd eu rhwydwaith a bwydo hyn i'r bartneriaeth ehangach;
4. Cydlynu gweithgaredd y rhwydwaith a chynnal cyfathrebu effeithiol â'r holl randdeiliaid;
5. Arwain cyfarfodydd y rhwydwaith [2 y tymor], dosbarthu cofnodion, pwysleisio pa mor bwysig yw hi bod Uwch Fentoriaid yn bwydo'r wybodaeth yn ôl, e.e. aseiniadau yn ymwneud â PAP.
6. Sicrhewch fod cofnodion presenoldeb ar gyfer cyfarfodydd rhwydwaith yn gywir;
7. Sicrhewch fod agendâu a chofnodion Cyfarfodydd Rhwydwaith yn cael eu lanlwytho i SharePoint PDPA yn amserol;
8. Rheoli dyraniad cyllideb y rhwydwaith;
9. Sicrhau bod Uwch Fentoriaid yn gwybod beth yn union yw eu cyfrifoldebau a'r disgwyliadau yn unol â'r Memorandwm Cytundeb e.e. mynychu Dyddiau 'Partneriaeth
10. Cefnogi'r rhaglen datblygu mentoriaid;
11. Sicrhewch fod yr holl fentoriaid yn y rhwydwaith wedi cwblhau'r Hyfforddiant Mentor Gradd 1 a bod Uwch Fentoriaid wedi cyflwyno'r hyfforddiant yn eu lleoliadau perthnasol;
12. Sicrhau bod asesiadau'r SAC yn gyson a sicrhau ansawdd y sgysiau crynodol;
13. Sicrhau bod gofynion Llwybr Datblygu'r Iaith Gymraeg yn cael eu bodloni yn y rhwydwaith;
14. Arwain gweithgareddau Pontio ar y cyd â'r Tiwtoriaid Prifysgol;
15. Sicrhau bod elfennau o'r rhaglen, fel Dewisol a Chyfnewid Cyfnod, yn brofiadau o ansawdd uchel ac yn gymharol â'r amrediad eang o brofiadau a gynigir;
16. Mynychu cyfarfodydd y Grŵp Arwain PDPA.
17. Nodi unrhyw anghenion Dysgu Proffesiynol a chysylltu â Thiwtoriaid Prifysgol i sicrhau mewnbwn priodol
18. Nodi a rhannu ymarfer effeithiol ar draws y rhwydwaith

Cyn y lleoliad:

1. Casglu cynigion lleoliadau gan ysgolion partner a dyrannu myfyrwyr i leoliadau gan ddefnyddio gwybodaeth gan Diwtoriaid Proffesiynol;
2. Cysylltu ag Uwch Fentoriaid i bennu darpar athrawon i ysgolion y bartneriaeth a rhoi gwybod i Swyddfa'r Bartneriaeth
3. Sicrhewch fod disgwyliadau PAP, yn cynnwys terfynau amser pwysig a Phrosesau Ymyrraeth, yn cael eu rhannu gyda'r rhwydwaith yn ystod Cyfarfodydd Rhwydwaith.
4. Sicrhau bod rhwydwaith parod ar gael ar gyfer Profiad Addysgu Proffesiynol (PAP), gan gynnwys cyfathrebu unrhyw dargedau strategol o gyfarfodydd y Grŵp Arwain PDPA.
5. Yn ystod y cam sefydlu, cyflwyno'r sesiynau 'Cyfarfod yr Arweinydd Rhwydwaith' i ddarpar athrawon;
6. Cysylltu ag Uwch Fentoriaid i ystyried cyfres o seminarau ar gyfer datblygiad proffesiynol darpar athrawon;
7. Dylai rhaglen cyfarfodydd y rhwydwaith sicrhau bod darpariaeth ar gyfer Llwybr yr Iaith Gymraeg yn cael ei thrafod e.e. rôl Cydlynnydd y Gymraeg [Ysgol Arweiniol y Rhwydwaith] a Mentoriaid Iaith [Ysgolion Partner] i gefnogi hyfforddeion ar PAP.

Yn ystod y lleoliad:

1. Sicrhau bod monitro o ansawdd uchel yn digwydd ar gyfer yr holl ddarpar athrawon sy'n cael eu rhoi yn y rhwydwaith
2. Cysylltu â'r Tiwtor Prifysgol i gynnal ymweliadau Sicrhau Ansawdd er mwyn sicrhau cysondeb y mentora ar draws y rhwydwaith.
3. Cynnal cyfarfodydd y Rhwydwaith
4. Cysylltu â'r Uwch Fentor o ran y broses ymyrraeth a darparu hyfforddiant yn ôl yr angen.
5. Cynnal agweddau 'cyfarfod a rhannu' Pontio.
6. Monitro lles darpar athrawon a dilyn gweithdrefnau os bydd pryderon yn codi; Sicrhau bod Uwch Fentoriaid yn monitro cofnod presenoldeb y darpar athrawon yn eu hysgol
7. Sicrhau bod Ysgolion Partner yn cwblhau dogfennau PDPA

Yn dilyn y lleoliad:

1. Sicrhau bod darpar athrawon yn cael eu rhoi yn y lleoliad priodol nesaf;
2. Casglu adborth gan Uwch Fentoriaid ar unrhyw gryfderau a heriau.
3. Rhannu themâu allweddol o werthusiad y darpar athrawon o PAP yng nghyfarfod y rhwydwaith
4. Darparu cyfleoedd ar gyfer sesiwn 'trosglwyddo' rhwng ysgolion partner.

.....

Uwch Fentor

Trosolwg cyffredinol o rolau a chyfrifoldebau:

1. Cydlynw Profiadau Addysgu Proffesiynol (PAP) yr ysgol a'u monitro i sicrhau bod y darpar athro yn cael profiad o ansawdd uchel;
2. Cyfrannu at ddatblygu'r rhwydwaith trwy fynychu a chymryd rhan yng nghyfarfodydd y rhwydwaith a chysylltu â'r Arweinydd Rhwydwaith;
3. Adrodd yn ôl ar lefel yr ysgol gyfan a rhannu newyddlen y Bartneriaeth; sicrhau bod ymrwymiad ar draws yr ysgol gyfan i Addysg Gychwynnol Athrawon
4. Ymgysylltu â'r Arweinydd Rhwydwaith ar faterion Sicrhau Ansawdd a phrosesau hunanwerthuso sy'n nodi meysydd cryfder a datblygiad.

Cyn y lleoliad:

1. Sicrhau bod Memorandwm Cytundeb yn cael ei lofnodi a'i ddychwelyd i Swyddfa'r Bartneriaeth – partneriaeth@pycydds.ac.uk
2. Mynychu Hyfforddiant Uwch Fentoriaid a sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei gyflwyno yn eu cyd-destun eu hunain cyn dechrau PAP
3. Cysylltu â'r Arweinydd Rhwydwaith i gytuno ar leoliadau addas;
4. Aseinio darpar athrawon i fentoriaid penodol ac i'r dosbarthiadau /blynyddoedd/grwpiau pwnc;
5. Sicrhau bod yr holl Fentoriaid Pwnc /Dosbarth yn gwybod beth yw eu cyfrifoldebau a'r disgwyliadau yn unol â dogfennau arweiniol;
6. Cynllunio gweithgareddau sefydlu ar gyfer dechrau'r lleoliad gan gynnwys; cyflwyniad i ddiogelu, ethos a diwylliant, ymddygiad proffesiynol, polisi ymddygiad a pholisi marcio;
7. Gwirio addasrwydd amserlenni gyda Mentoriaid Pwnc /Dosbarth i sicrhau profiad cyfartal o ran y llwyth gwaith disgwylidig [LIC];
8. Cysylltu â'r Arweinydd Rhwydwaith i ystyried cyfres o seminarau ar gyfer datblygiad proffesiynol darpar athrawon;
9. Cysylltu â'r Arweinydd Rhwydwaith i gefnogi gweithgareddau ehangach e.e. Pontio, rhannu gwybodaeth â staff perthnasol, er enghraifft, llywodraethwyr, mentoriaid dosbarth.
10. Nodi unrhyw anghenion datblygiad proffesiynol mewn perthynas â rolau a chyfrifoldebau'r uwch fentor a'r mentor dosbarth/pwnc.

Yn ystod y lleoliad:

1. Croesawu darpar athrawon i'r lleoliad a sicrhau eu bod yn rhan o'r tîm staff.
2. Cefnogi trefniant 'ymweliad cynnar' i sicrhau bod gan fentoriaid a darpar athrawon dan yr holl wybodaeth sydd ei hangen.
3. Monitro cynnydd y darpar athrawon ar-lein [ffeil PAP a PDP] a chynngori ar dargedau sy'n dod i'r amlwg yn y dyddiadur dysgu. Trafod y targedau hyn yn bersonol gyda'r mentor dosbarth/pwnc.
4. Cynorthwyo'r mentor dosbarth/pwnc i ymgysylltu â myfyrwyr mewn gweithgareddau ehangach yn y lleoliad, e.e. Pontio, aseiniad ymchwil gweithredol ar raddfa fach.
5. Sicrhau bod y cofnod presenoldeb yn gywir [PDP]

6. Arsylwch un sesiwn adborth rhwng y myfyriwr a'r Mentor Dosbarth/Pwnc, fesul PAP. Yn y sesiynau hyn, bydd yr Uwch Fentor yn arsylwi ar y mentor Dosbarth/Pwnc sy'n cymryd rhan mewn deialog â'r myfyriwr athro sy'n hyrwyddo myfyrio ar y dysgu a thynnu allan o dargedau personol sy'n dod i'r amlwg;
7. Cymryd rhan yn y broses 'Cyd-adolygiad' ar gyfer athrawon dan hyfforddiant sydd wedi'u lleoli yn yr ysgol.
8. Rhaid i'r Uwch Fentor brawf ddarllen a sicrhau bod yr holl adroddiadau canol a diwedd lleoliad yn cael eu lanlwytho i SharePoint erbyn y dyddiadau cau priodol. Rhaid iddynt hefyd sicrhau bod unrhyw dargedau yn briodol i'r darpar athro ac yn bodloni disgwyliadau'r Bartneriaeth.
9. Trafodaeth trosglwyddo rhwng Uwch Fentoriaid o fewn y rhwydwaith lle trafodir gwybodaeth allweddol a phrif themâu adroddiad diwedd lleoliad. Dylid rhannu gwybodaeth hefyd mewn perthynas ag athrawon dan hyfforddiant sydd ar y Broses Ymyriad fel bod yr ysgol PTE sydd ar ddod yn ymwybodol o'r amgylchiadau.

Mentor Pwnc/Dosbarth

Trosolwg cyffredinol o rolau a chyfrifoldebau:

1. Datblygu darpar athrawon o ddydd i ddydd trwy ddarparu profiadau o ansawdd uchel a bod yn bwynt cyswllt cyntaf i gynnig cymorth o ran cynllunio, addysgeg, asesu a meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol;
2. Cynnig mentora a hyfforddiant o ansawdd uchel, gosod targedau a chefnogi'r cyflwyniad graddol i addysgu [llwyth gwaith a methodolegau addysgu]
3. Rhoi cymorth i ddarpar athrawon ynghylch elfennau ar y rhaglen fel pontio, aseiniadau ymchwil gweithredol ar raddfa fach, dewisol, a chyfnod cyfnod; a neilltuo amser ar gyfer unrhyw weithgareddau cynllunio cysylltiedig.
4. Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am ddogfennau PDPA;

Cyn y lleoliad:

1. Rhaglen Datblygu Mentoriaid Cwblhau Gradd 1;
2. Cyfarfod yr Uwch Fentor i gytuno ar leoliad y darpar athro ac ystyried unrhyw ddogfennau a cherrig milltir allweddol; e.e. adroddiad canol lleoliad, adroddiad diwedd lleoliad ac arsylwadau ar y cyd, ac ati;
3. Ystyried adroddiadau blaenorol i gefnogi pontio rhwng lleoliadau
4. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gallu cyrchu'r SharePoint PDPA

Yn ystod y lleoliad:

1. Cyfarfod yr Uwch Fentor yn rheolaidd i drafod cynnydd darpar athrawon
2. Cynorthwyo â'r gwaith cynllunio e.e. cynllunio cyfarfodydd neu sesiynau CPA ar y cyd.
3. Rhoi adborth rheolaidd i darpar athron e.e. yn llafar neu ei gofnodi yn y dyddiadur dysgu
4. Cynnal arsylwad Sicrhau Ansawdd ar y cyd â'r Arweinydd Rhwydwaith neu'r Tiwtor
5. Cefnogi'r cyflwyniad graddol i addysgu trwy addysgu fel tîm.
6. Rhannu myfyrdodau wythnosol gan gynnal sgwrs ar sail tystiolaeth a chytuno ar dargedau i'w gweithredu.
7. Cynorthwyo'r darpar athro i gyflawni ei gyfrifoldeb dros Lwybr Datblygiad y Gymraeg.
8. Trafod arsylwadau'r dyddiadur dysgu, yn seiliedig ar gyfleoedd 'Amserlen Ddysgu' y darpar athro e.e. arsylwadau athrawon eraill, ac ati.
9. Cynorthwyo'r darpar athro â gweithgareddau lleoliad ehangach e.e. Trwy ystyried teitlau a therfynau amser aseiniadau; pontio
10. Ystyried ymgysylltiad y darpar athro â'r PDP [llinyn 'Dysgu Proffesiynol Parhaus'] wrth asesu cynnydd yng nghanol y lleoliad ac ar ddiwedd y lleoliad.
11. Cymryd rhan yn y broses sgwrs broffesiynol sy'n sail i adrodd ar bwyntiau asesu canol y lleoliad a diwedd y lleoliad.
12. Cwblhau'r holl adroddiadau gofynnol a'u cyflwyno i Sharepoint yr Athrofa.

Addysgwyr Athrawon Prifysgol-seiliedig

Trosolwg cyffredinol o rolau a chyfrifoldebau:

1. Datblygu doethineb ymaferfol yn y darpar athrawon – hynny yw, dwyn ynghyd damcaniaeth ymarferol arbenigol a phrofiad ymarferol yn yr ystafell ddosbarth;
2. Dangos modelu bwriadol – creu cyfleoedd sy'n cyfeirio'r darpar athrawon yn fwriadol at addysgu a dysgu effeithiol;
3. Arwain ar ddysgu proffesiynol a hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth ar draws y sector (lledaenu gwybodaeth);
4. Cynorthwyo darpar athrawon i feddwl yn feirniadol am wybodaeth a llunio damcaniaethau da am addysg;
5. Dod â gwybodaeth addysgegol benodol i leoliad yr ysgol a hwyluso mynediad at ymchwiliad drwy Raglen Ymchwiliad Proffesiynol Ysgolion;
6. Hybu gweithgaredd ymchwil ar draws y cwricwlwm er mwyn i'r ysgolion gael mynediad at ymarfer sy'n seiliedig ar ddamcaniaeth, sy'n cymryd rhan mewn ymchwil ac sy'n cael ei ysgogi gan ymarfer;
7. Cynnal ymchwil mewn maes neu ddisgyblaeth benodol a chefnogi /hwyluso ymchwilad sy'n agos at ymarfer;
8. Ymgysylltu â'r prosesau sicrhau ansawdd o amgylch asesu darpar athrawon mewn perthynas â Statws Athro Cymwysedig – o fewn ac ar draws rhwydweithiau;
9. Cydlynu cyflwyniadau a rhannu gwybodaeth yng nghynhadledd PDPA;
10. Rhoi mewnbyn o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar y brifysgol ac sy'n cysylltu'n benodol â chynnwys y modiwl i safonau SAC a'r PDP.

Cyn y lleoliad:

1. Paratoi darpar athrawon ar gyfer aseiniadau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â PAP;
2. Cyd-adeiladu a chyd-gyflenwi Pontio gydag Arweinydd Rhwydwaith;
3. Cefnogi Arweinwyr Rhwydwaith a darpar athrawon mewn gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan ymchwiliad;
4. Creu cymunedau ymarfer sy'n seiliedig ar bwnc/cyfnod.

Yn ystod y lleoliad:

1. Archwiliadau lles rheolaidd gydag athrawon dan hyfforddiant;
2. Eirioli a chefnogi'r ddarpariaeth rhwydwaith ar gyfer Llwybr Datblygu'r Gymraeg;
3. Nodi unrhyw anghenion hyfforddi a chysylltu ag arweiniad strategol i sicrhau dysgu proffesiynol priodol;
4. Cysylltu â phartneriaid mewn ysgolion i gynnal ymweliadau Adolygiad Cynnar a Chyd-Adolygiad i sicrhau cysondeb mentora;
5. Cefnogi Uwch Fentor ac Arweinydd Rhwydwaith gyda Phrosesau Ymyrryd, os oes angen

Yn dilyn y lleoliad:

1. Cyfrannu at werthuso pontio a bwydo i mewn i'r cynllunio strategol;
2. Darparu cymorth parhaus i ysgolion ar gyfer dysgu yn seiliedig ar ymchwil;
3. Hwyluso myfyrdod pan fydd darpar athrawon yn dychwelyd i leoliad y brifysgol;
4. Monitro cynnydd myfyrwyr-athrawon drwy ymgysylltu â SharePoint e.e. Adroddiad Diwedd Lleoliad
5. Monitro a sicrhau bod cofnodion mewnol (e.e. 'Healthcheck') yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf
6. Rhannu dysgu ehangach â Grŵp Arwain Strategol PDPA.

Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol)

Trosolwg cyffredinol o rolau a chyfrifoldebau:

1. Cefnogi'r Arweinydd Rhwydwaith, yr Uwch Fentor a'r Mentor Pwnc/Dosbarth i fentora darpar athrawon sy'n cael eu rhoi yn y rhwydwaith /rhwydweithiau;
2. Casglu data o'r rhwydwaith ac ar draws rhwydweithiau er mwyn gwerthuso darpariaeth a sicrhau deilliannau o ansawdd uchel ar gyfer SAC
3. Cynorthwyo'r Arweinydd Rhwydwaith i werthuso Dewisol a Chyfnewid Cyfnod;
4. Mynychu cyfarfodydd rhwydwaith a chysylltu â'r Arweinydd Rhwydwaith mewn perthynas ag eitemau ar yr rhaglen e.e. targedau a dogfennau'r Grŵp Arwain PDPA;
5. Mynychu cyfarfodydd y Grŵp Arwain PDPA;
6. Cyfrannu at osod y cyfeiriad strategol o werthuso gweithio rhwydwaith
7. Mynychu cyfarfodydd y Rhwydwaith ac annog rhannu ymarfer ar draws y rhwydwaith ac mewn cyfarfodydd 'rhwydwaith y rhwydwaith'

Cyn y lleoliad:

1. Mynychu cyfarfodydd y Rhwydwaith a chefnogi'r Arweinydd Rhwydwaith i rannu disgwyliadau PAP
2. Arweinydd Rhwydwaith Cymorth gyda threfnu lleoliad PAP, fel y bo'n briodol.

Yn ystod y lleoliad:

1. Cysylltu â'r Arweinydd Rhwydwaith i sicrhau bod mentora o ansawdd uchel yn digwydd i'r holl ddarpar athrawon sy'n cael eu rhoi yn y rhwydwaith
2. Cysylltu'n rheolaidd â'r Arweinydd Rhwydwaith i fonitro'r lleoliad a sicrhau cynnydd darpar athrawon wrth symud tuag at SAC
3. Cynnal trosolwg o'r ffordd mae Fframwaith yr Iaith Gymraeg yn gweithredu mewn ysgol.
4. Cysylltu â'r Arweinydd Rhwydwaith i gefnogi Uwch Fentoriaid a mentoriaid i fonitro ymgysylltiad â'r PDP
5. Rhannu ymarfer effeithiol ag Arweinwyr Rhwydwaith a'r Arweinydd Strategol (SAC) i'w rannu ymhellach

Yn dilyn y lleoliad:

1. Sicrhau bod PAP yn cael ei werthuso, a bod mentora ac ymgysylltu â chynllunio a myfyrdod yn digwydd a bod hyn yn bwydo i mewn i grŵp Arwain PDPA.

Rhestr Gyswllt Rhwydweithiau

Rol	New / Cyfeiriad e-bost
Swyddog Gweinyddol y Bartneriaeth -	partneriaeth@pycydds.ac.uk partnership@uwtsd.ac.uk
Cyfarwyddwr Academaidd - AGA	Dave Stacey David.stacey@uwtsd.ac.uk
Rheolwr Rhaglen TAR Uwchradd	Stephen Hadley Stephen.hadley@uwtsd.ac.uk
Rheolwr Rhaglen TAR Cynradd	Jayne Morgan Jayne.morgan@uwtsd.ac.uk
Rheolwr Rhaglen BA	Fiona Jones f.jones@uwtsd.ac.uk
Arweinydd Strategol Partneriaeth PDPA	Laurence Thomas laurence.thomas@uwtsd.ac.uk

Ysgol Arweiniol	Arweinydd Rhwydwaith PDPA	Tutor Prifysgol (Proffesiynol)	Tutor Prifysgol (Pontio):
Bishop Gore School	Ruth Williams ruthwilliams@bishopgore.net	Hillary Chivers hilary.chivers@uwtsd.ac.uk	Ishmael Lewis ishmael.lewis@uwtsd.ac.uk
Bishop of Llandaff CiW Secondary School	Charlotte Dodwell dodwellc@bishopofllandaff.org	Hillary Chivers hilary.chivers@uwtsd.ac.uk	Daisy Wilson d.wilson@uwtsd.ac.uk
Cadle Primary School	Jamie Davies Daviesj302@hwbcymru.net	Diane Thomas d.b.thomas@uwtsd.ac.uk	Jessica Roberts Jessica.roberts@uwtsd.ac.uk
Cowbridge Comprehensive School	Ruth Williams rwilliams@cowbridgecs.co.uk	Diane Thomas d.b.thomas@uwtsd.ac.uk	Stephen Hadley Stephen.hadley@uwtsd.ac.uk
Ebbw Fawr Learning Community	Charlotte Blatchford cblatchford@ebbwfawr.co.uk Beverley Timothy- Webber btimothy-webber@ebbwfawr.co.uk	Laurence Thomas Laurence.Thomas@uwtsd.ac.uk	Laurence Thomas Laurence.Thomas@uwtsd.ac.uk
Maes yr Haul Primary School	Joanna Kenifick joanna.kenifick@maesyrau-lps.bridgend.cymru	Hillary Chivers hilary.chivers@uwtsd.ac.uk	Rachel Bendall Rachel.bendall@uwtsd.ac.uk
Olchfa School	Rebecca Salmon rms2@olchfa.org.uk	Diane Thomas d.b.thomas@uwtsd.ac.uk	Jingjing Ruan j.ruan@uwtsd.ac.uk
Parkland Primary School	Catrin Parton partonc@hwbcymru.net	Roberta Tucker r.tucker@uwtsd.ac.uk	Jayne Morgan Jayne.morgan@uwtsd.ac.uk
Pembroke Dock Community School	Katie Crockford-Morris Morrisk111@hwbcmail.net	Diane Thomas d.b.thomas@uwtsd.ac.uk	Tom Cox t.cox@uwtsd.ac.uk
Pontarddulais Primary School	Hayley Thomas phillipsh77@hwbcymru.net Emma John johnne170@hwbcymru.net	Roberta Tucker r.tucker@uwtsd.ac.uk	Roberta Tucker r.tucker@uwtsd.ac.uk
QE High School	Angharad Lewis angharad.lewis@qehs.carms.sch.uk	Roberta Tucker r.tucker@uwtsd.ac.uk	Aled Williams aled.p.williams@pcydd.ac.uk
St Thomas Community Primary School	Rebecca Taylor TaylorR175@Hwbcymru.net	Diane Thomas d.b.thomas@uwtsd.ac.uk	Laura Emanuel laura.emanuel@uwtsd.ac.uk
Ysgol Bro Preseli	Catrin Thomas Cthomas@ysgolbropreseli.cymru	Ian Jones ian.jones@uwtsd.ac.uk	Menna Davies menna.davies@uwtsd.ac.uk
Ysgol Gynradd Gymraeg Lôn Las	Llinos Jones JonesL106@Hwbcymru.net	Ian Jones ian.jones@uwtsd.ac.uk	Meryl Bowen m.bowen@uwtsd.ac.uk
Ysgol Llanhari	Lloyd Owens Lowens@llanhari.com	Ian Jones ian.jones@uwtsd.ac.uk	Ian Jones ian.jones@uwtsd.ac.uk

- Burn, K., Hagger, H. and Mutton, T., (2015). *Beginning teachers' learning*. London: Critical Publishing.
- Cochran-Smith, M., and Lytle, S. L., (2009). *Inquiry as stance: Practitioner research for the next generation*. New York, NY: Teachers College Press
- Earl, K. M. & Timperley, H., 2009 [Editors]. *Professional Learning Conversations: Challenges in Using Evidence for Improvement*. Dordrecht: Springer.
- Estyn (2022). *The professional learning continuum: mentoring in initial teacher education* | Estyn. [online] Available at: <<https://www.estyn.gov.wales/thematic-report/professional-learning-continuum-mentoring-initial-teacher-education>> [Accessed 2 October 2022].
- Furlong, J. and Maynard, T., (1995) *Mentoring student teachers*. London: Routledge.
- Hattie, J., (2012). *Visible learning for teachers : maximizing impact on learning*. London [etc.]: Routledge.
- Hobson, A. and Malderez, A., (2013) *Judgementoring and other threats to realizing the potential of school-based mentoring in teacher education*. *International Journal of Mentoring and Coaching in Education*; 2 (2), pp. 89-108),
- Kennedy, M. (2006) Knowledge and Vision in Teaching. *Journal of Teacher Education*, 57 (3) pp. 205-11.
- Mindtools.com. (n.d). *Active Listening: Hear What People are Really Saying*. [online] Available at: <<https://www.mindtools.com/CommSkll/ActiveListening.htm>> [Accessed 26 September 2023]
- Rosenshine, B., (2012). *Principles of Instruction: Research-based Strategies That all Teachers Should Know*. [online] Aft.org. Available at: <<https://www.aft.org/sites/default/files/periodicals/Rosenshine.pdf>> [Accessed 10 August 2022].
- Sharpling, E., (2020). *Red stripes'– how do we support student-teachers through a journey of reform?*. [online] Uwtsd.ac.uk. Available at: <<https://www.uwtsd.ac.uk/blogs/red-stripes-how-do-we-support-student-teachers-through-a-journey-of-reform.html>> [Accessed 9 August 2023].
- Sherrington, T., (2019). *Rosenshine's Principles in Action*. Suffolk: John Catt Educational Ltd.
- Sherrington, T., (2019). *Rethinking observation and feedback*. Teacherhead. [Online] Available at: <https://teacherhead.com/2019/12/05/re-thinking-observation-and-feedback-solvingthe-learning-problems/> [Accessed 3 May 2024].